


Y TIM TENIS




TREIALON CŴN DEFAID




CAPEL Y RHOS


# ECO'r Wyddfa

Rhif: 413
Medi 2013
Pris: 50c




# PENCAMPWYR CENEDLAETHOL

**Ddydd Sul, Awst 4ydd, coronwyd Seindorf Arian Deiniolen yn ennillwyr y brif gystadleuaeth i Fandiau Pres yn yr Eisteddfod Gendlaethol yn Ninbych - un o fuddugoliaethau mwyaf blaenllaw y Band yn eu hanes hir a llwyddiannus. Er mai dyma oedd y 17eg tro i'r Band fod yn fuddugol yn unrhyw un o'r cystadleuthau yn yr Eisteddfod dyma'r tro cyntaf iddynt ennill yn yr adran uchaf ers 1957.**

Roedd pob un o'r tri beirniad yn uchel iawn eu clod am berfformiad y Band a'u dewis o raglen ar y diwrnod. Dyma oedd y tro cyntaf i'r Band gael eu arwain mewn cystadleuaeth gan yr amryddawn Lois Eifion - ychydig dros flwyddyn ers iddi gael cynnig swydd arweinydd y Band. Soniodd y beirniaid yn arbennig am arweinyddiaeth a pherfformiad hynod gerddorol gan yr arweinydd, y Band a'r unawdydd, Urien Sion Huws.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i Lois a holl aelodau'r Band am eu gwaith caled yn paratoi tuag at yr Eisteddfod ac i Gavin Saynor am ei gyngor a'i gymorth.

Bydd y Band yn perfformiad nesaf yn ystod eu Cyngerdd Blynyddol yng Nghapel Seilo - yng nghwmni'r Band Ieuenctid, Côr Eifionydd, Trio, Osian Trefor ac arweinydd y noson, Trystan Ellis Morris.Bydd holl elw'r Cyngerdd yn mynd tuag at Gronfa Uned Gofal Dwys, Ysbyty'r Frest a'r Galon, Broadgreen, Lerpwl, er cof am gyn-aelod, ffrind a chefnogwr ffyddlon i'r Band, Ellis Wyn Williams.



# PENCAMPWR Y DOFEDNOD.

Mae Ryan Robinson o Dan y Coed yn creu enw iddo'i hun ymysg cystadleuwyr a dangoswyr dofednod yng ngwahanol sioeau amaeth y wlad. Clywsom am rai o'i lwyddiannau eisoes yn yr "Eco". Yn ystod yr haf daeth yn fuddugol fel y dangoswr ieuanc gorau yn sioeau Croesoswallt a Llanrwst, a hynny gyda'i iâr Belgian Quail, sydd wedi ennill nifer o wobrau iddo hyd yn hyn.

Yn ystod mis Tachwedd bydd yn mentro i Stoneleigh, prif sioe amaethyddol Lloegr, a dymunwn yn dda iddo yno, gan obeithio dod â hanes buddugoliaeth arall i'r bachgen ifanc o Dan y Coed.

# ECO'r Wyddfa

**RHIF 413**
**Medi 2013**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911


**DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012**

| Rhifyn | Copi i law | Plygu | Ble |
|---|---|---|---|
| Hydref | Medi 15 | Medi 26 | Penisarwaun |


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau**
**ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com
**PENISARWAUN:** ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)



gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673


## LLYTHYRAU

*Annwyl Ddarllenwyr y Papur Bro,*

### Rifiw Newydd O Amgylch Cymru Yn Nodi Dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Yn ystod Gwanwyn 2014 mae Bara Caws yn bwriadu teithio rifiw newydd o amgylch Cymru yn nodi dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Os hoffech i ni ddod i'ch cymuned chi a bod gennych hanesyn penodol i'w adrodd sy'n berthnasol i'ch ardal – gall fod yn stori, yn gerdd, yn gân, yn rhestr enwau, yn hanes am gofgolofn ayb – cysylltwch â ni rhag blaen er mwyn i ni edrych ar y posibiliadau o deilwra'r sioe yn arbennig ar eich cyfer.

Yn gywir iawn,
Linda Brown (Bara Caws) e.bost: linda@theatrbaracaws.com

---

### Bugeiliaid Stryd Bangor

*Annwyl Olygydd*

Rwy'n ysgrifennu ar ran Bugeiliaid Stryd Bangor (os nad ydych chi wedi clywed amdanynt, mae'r erthygl amgaeedig - tudalen 28). Mae'r Bugeiliaid yn cerdded strydoedd y ddinas un noson yr wythnos, yn cynnig help a gofal i unrhyw un y mae arno ei angen. Er bod llawer o bobl ifainc o bellter go fawr yn dod i'r ddinas am noson allan, 'rydym yn teimlo efallai nad yw pobl y tu allan i Fangor yn gwybod llawer am y gwasanaeth. Mae'r erthygl yn cynnig ychydig o wybodaeth, a rhif ffôn y gall pobl gario efo nhw rhag ofn y bydd angen help gyda'r nos.

Llawer o ddiolch,
Ann Corkett (Aelod o'r Pwyllgor)

---

Arddol, 12 Cae Bryn
Groeslon, Caernarfon. LL54 7SU

*Annwyl Olygydd,*

### 100 Mlwyddiant Addysg Amaethyddol

Eleni mae'n achlysur arbennig i gyn-fyfyrwyr Coleg Madryn a Glynllifon pan fyddwn yn dathlu 100 mlynedd ers agor Coleg Madryn, y coleg amaethyddol cyntaf yng Nghymru a byddwn yn dathlu yr achlysur yng Ngwesty Nanhoron, Nefyn, ar Hydref 5. Rydym yn chwilio am fyfyrwyr a fu yno i ymuno â ni yn y dathlu a rhannu ambell stori am eu cyfnod yn y coleg.

Os y gwyddoch am unrhyw un a fuasai yn hoffi dod i ymuno â ni a fuasech yn cysylltu â mi, Mrs Megan Jones ar 01286 830679 neu ar y cyfeiriad uchod.

---

### Cyfeillion Plas Pengwaith

At drigolion ardal yr Eco

Annwyl Gyfeillion

Cynhelir cyfarfod i sefydlu Cyfeillion Plas Pengwaith ar 7 Hydref am 6.30 ym Mhlas Pengwaith.

Bwriad y Cyfeillion fydd cefnogi preswylwyr a staff y cartref a hyrwyddo gweithgareddau fydd yn cyfoethogi bywyd y preswylwyr. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb mewn gwaith o'r fath neu â chysylltiad â'r Cartref.

Am fwy o wybodaeth neu ddatganiad o ddiddordeb cysylltwch â Sian Evans neu Sandra Evans yn y Cartref (Ffôn: 01286 870360).

### YN EISIAU – GWIRFODDOLWR.

Mae'r "Eco" yn chwilio am berson a fyddai'n fodlon danfon copiau o'r "Eco" i siopau Caernarfon unwaith y mis.

Os ydych chwi'n fodlon cynnig cymorth i ddosbarthu'r papur, yna cysylltwch â Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug (Ffon 01286 673838) am fwy o wybodaeth.

## RHODDION

£25 Mrs Margaret Ellis er cof am Tony Ellis, 5 Nant Ffynnon, Nant Peris

£20: Er cof am Mrs Bessie Ellis, Bethel gan y teulu; Teulu Cefn, Llanddeiniolen, er cof am Margaret Jones. Ken Griffith, Beudy Mawr, Nant Peris Heather, Lionel a Hannah er cof am Owen Kenneth Jones, 2 Glanrafon, Nant Peris. Glyn a Iona Richards, 5 Tai Caradog, Deiniolen er cof am Dyfed Glyn Ellinson, Brynsiencyn.

£10: Gareth a Rhian Hughes, Erddig, Bethel; Eco cof am Mrs Elizabeth Griffiths, Llanberis; teulu Robert Henry Williams, Pant Gwyn gynt; Margaret Williams, Nant Forgan, Cwm y Glo; Eunice Roberts, 15 Maes Padarn, Llanberis; Nellie Morris, 76 Maes Padarn, Llanberis; Hannah Jones, Tawel Lan, Ffordd Padarn, Llanberis.

£5: Mrs Eirwen Rowlands, Llys Forgan, Llanrug. Di-enw, Tanycoed

## Cliriwch ar eich ôl!

Hoffus, addfwyn, cyfeillgar, ffyddlon, cwmpeini. Dyna rai o'r geiriau a ddefnyddir gan berchnogion cwn anwes i ddisgrifio'i hanifeiliaid.

Yn anffodus, mae nhw hefyd yn baeddu. Yn anffodus, dydi pob perchennog ddim yn derbyn y cyfrifoldeb am lanhau'r baw ar ei ôl. A'r ychydig berchnogion anghyfrifol – a'u cŵn – sy'n creu problemau ar strydoedd a phalmentydd Llanrug.

Wrth gwrs, fyddai neb yn meddwl mynd a'i gi i wneud ei fusnes mewn cae chwarae lle mae'n bosib i blentyn ddod i gysylltiad â'r baw – a'r oblygiadau meddygol difrifol allai ddeillio o hynny. Ond yr un yw'r peryglon ar y stryd a'r palmant hefyd.

Felly, dyma apêl, unwaith eto, gan Gyngor Cymuned Llanrug, i berchnogion cŵn yr ardal ofalu glanhau'r baw pan fo'r ci yn gwneud ei fusnes ar stryd neu balmant. A diolch i chwi am gadw'n glir o gaeau chware'r pentref.

## Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

### Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.
Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £15.00 - gwledydd Ewrop £33.50 - gwledydd eraill £42.50
Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50
Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

# RAS FEICIO'R "TOUR OF BRITAIN".

**Mae pedwerydd cymal y ras feicio enwog yn gorffen yn Llanberis ar ddydd Mercher 18fed o Fedi. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r ras ymweld â'r ardal, a disgwylir hyd at ddeng mil o gefnogwyr a gwylwyr i'r fro yn ystod y diwrnod. Mae Cyngor Gwynedd a Phartneriaeth Llanberis wedi chwarae rhan bwysig yn y trefniadau, a gall y beicwyr a phawb arall sy'n ymwneud â'r ras groeso cynnes.**

Bydd y pedwerydd cymal yn cychwyn o Stoke-on-Trent am unarddeg y bore, a dyna hefyd yr amser pryd y cychwynnir gwahanol weithgareddau ym mhentref Llanberis. Ar ôl teithio o Ben y Gwryd i lawr Bwlch Llanberis, disgwylir i'r ras orffen ar ffordd osgoi Llanberis tua chwarter i bedwar y pnawn.

Yn naturiol, bydd angen cau rhai ffyrdd a chyfyngu ar barcio.

**Bydd ffordd osgoi Llanberis ar gau o ddau o'r gloch y bore hyd saith yr hwyr. Bydd maes parcio'r pentref a maes parcio Mynydd Gwefru ar gau gydol y cyfnod hwn. Ni chaniateir parcio ar Stryd Fawr y pentref yn ystod yr amser hwn chwaith.**

Mae Partneriaeth Llanberis yn gofalu am drefn Parcio a Theithio ar gost o £5 o safle Glyn Rhonwy, ac amcangyfrifir fod lle i 2,500 o gerbydau i barcio yno.

Mae Cyngor Gwynedd yn argymell i bobl sydd am fynychu'r digwyddiad – unai ar y llinell derfyn yn Llanberis, ym Mwlch Llanberis neu ym Mhen Gorffwysfa, i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beic neu gerdded.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y ras ar gael ar wefan y "Tour of Britain" http://the tour.co.uk . Bydd y wefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Bydd gwybodaeth ar gael hefyd yng Nghanolfan Croeso Llanberis (01286 870765).

Mae cystadleuwyr a chefnogwyr Marathon Eryri, Ras yr Wyddfa, Triathlon Llanc y Llechen ac amryw gystadleuthau eraill eisoes wedi profi'r croeso a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ein bro. Dewch draw i Lanberis i estyn yr un croeso a'r un gefnogaeth i feicwyr gorau Prydain ac Ewrop.

menter fachwen

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT



*Martin o Lanrug , Gareth, Bet Huws o Lanberis, Ian Ellis (Deiniolen) a Gwyn Edwards yn cychwyn y daith o Gaer Rufeinig Caerhun, Dyffryn Conwy.*


### TAITH GERDDED RUFEINIG

Mae Gareth Roberts, Cydlynudd Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen wedi cwblhau yr ail daith gerdded Rufeinig i godi arian tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon. Yn 2008 cerddodd y 78 milltir o Segontium i Gaer ar hyd y hen lon Rufeinig mewn 3 diwrnod yng nghwmni Bet Huws o Lanberis. Tro hwn, cerdded yr hen lonydd Rhufeinig o Drawsfynydd i Gaergybi oedd y gamp. Cafodd gwmni 15 aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Trawsfynydd ar y diwrnod gyntaf o Tomen y Mur i Gaerhun yn Nyffryn Conwy. Ar yr ail ddiwrnod fe gafodd cwmni Bet unwaith eto ac eraill (gweler llun) ar y 26 milltir o Gaerhun (Dyffryn Conwy), ar draws ardal yr Eco i Segontiwm cyn heglu ar draws Ynys Mon o Frynsiencyn i Gaergybi ar y trydydd diwrnod. Hoffai Gareth ddiolch yn fawr iawn am y gefnogaeth a'r cwmni yn ystod y teithiau a'r nod yw codi £2000 ar gyfer Sefydliad Prydeinig y Galon. Dymuna Gareth diolch i bawb fu mor garedig a chefnogi'r fenter.

1.RHAGLEN TEITHIAU 'CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD' MENTER FACHWEN – MEDI 2013
DYDD MAWRTH 3 MEDI
PENTIR A GLASINFRYN
CYCHWYN: 2yp, Y Faenol, Pentir. 4½ milltir. Cymedrol. Dewch a sgidiau cerdded.
DYDD IAU 5 MEDI
LANSIAD MAP LLANDDEINIOLEN
7yh y Caban, Brynrefail. Croeso i bawb.
GWENER 27 MEDI
CYLCHDAITH DINORWIG
CYCHWYN: 2yp, Cylchfan Bysus yn Dinorwig. 1½ milltir.
Taith gerdded cymedrol ond angen sgidiau cerdded.

Bydd y rhaglen yn parhau trwy'r gaeaf, yn cynnwys teithiau cerdded i weld a dysgu am y sêr yn y nôs. Mae manylion am y teithiau ar wefan Menter Fachwen. Os ydych angen rhaglen fisol trwy e-bost, yna cysylltwch a 'garmel@fsmail.net'. Eisioes mae'r cynllun wedi argraffu dau fap ychwanegol yn Llŷn, sef Llanbedrog a Nefyn ac yn gweithio ar sawl map digidol yng Nghonwy a Sir Dinbych. Yn nes adra, mae'r cynllun wrthi'n gweithio ar fapiau o Llyn Padarn, Waunfawr a phlwyf Llanberis yn ardal yr Eco a Phlwyfi Pentir a'r Felinheli. Cewch ragor o fanylion am y mapiau a datblygiadau eraill ynglyn a'r Cynllun yn yr Eco yn y misoedd i ddod. Cysylltwch a Gareth yn Menter Fachwen ar 01286 872014.

# Arddangosfa Gŵr o Fethel





Bydd arddangosfa o waith Steven Jones i'w gweld yn Oriel Glyn y Weddw, Llanbedrog o Fedi 22ain tan Dachwedd 10fed 2013.

Yn adnabyddus am ei luniau glan-môr, mae Steven wedi bod wrthi yn paratoi oddeutu 50 o luniau arfordir harddaf Gogledd Cymru, yn cynnwys traethau Dinas Dinlle, Llanbedrog, Trefor, Nefyn, Porthdinllaen, Aberdaron, Criccieth, Aberdesach, Morfa Bychan ac Ynys Enlli.

Cafodd Steven ei hyfforddi yng ngholeg Arlunio Wrecsam gan Keith Bowen, cyn symud i Lundain i weithio fel Darlunydd. Yno bu yn cyhoeddi lluniau i gwmniau yn cynnwys y BBC, TV Times, Readers Digest, Banciau Barcleys, Lloyds a TSB, Ceir Lancia a Jaguar, a phapurau newydd Y Telegraph a'r Mail, yn ogystal a llyfrau Collins. Cafodd poster a luniodd ar gyfer y ffilm 'Christmas Carol' ei arddangos ar hyd gorsafoedd tanddaearol Llundain!

Symudodd yn ôl i Gymru yn 1985 i redeg Oriel ei hun yn Y Felinheli. Ymgartrefodd ym Methel gyda'i wraig Sian, a'i blant Robin, Lois ac Elan. Mae y tri wedi eu portreadu yn rheolaidd yn ei luniau dros y blynyddoedd

Mae Steven bellach yn rhedeg oriel/stiwdio yn Biwmares, ond mae hefyd yn gwerthu ei luniau mewn dros 100 o orielau ar hyd a lled Prydain, yn Maryland America, yn yr Algarve, Portiwgal, ac mae rwan wedi ei dderbyn i arddangos ei luniau ym Montmartre, Paris, Gwanwyn nesaf.

Yn ddiweddar fe'i comisiynwyd i wneud llun o blant Scott Quinell ar achlysur ei benblwydd. Mae hefyd wedi gwerthu lluniau i Bryn Terfel, Rebecca Evans, Dafydd Wigli a Dafydd Iwan. Bu i'r diweddar Syr Kyffin Williams ddweud ei fod yn ystyried Steven yn un o arlunwyr mwyaf addawol Cymru.

Cyhoeddodd ei lyfr cyntaf llynedd, 'Llwybr Arfordirol Môn', sy'n cynnwys 200 o luniau, yn ogystal ac 21 o deithiau cerdded o gwmpas yr Ynys.

Gellir gweld mwy o luniau gwreiddiol, printiau a chardiau Steven ar ei wefan, www.stevenjonesartist.com

Cynhelir diwrnod agoriadol yr arddangosfa yn Oriel Plas Glyn y Weddw ddydd Sul yr 22ain o Fedi rhwng 2 a 5yh. ( nid yw yr oriel ar agor ar ddydd Mawrth)






*Dylan Griffith*

*Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol*

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi*
*Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol*
*24 Awr y Dydd*
*Capel Gorffwys Preifat*
*Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



**Cronfa Goffa R. H. Owen**

Gwahoddir ceisiadau am GRANTIAU o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arno i'r Ysgrifennydd-

John H. Hughes
"Glyder" 8 Ffordd Capel Coch Llanberis
Gwynedd LL55 4SH
Ffôn-(01286) 871562

Y CEISIAU i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn MEDI 30ain 2013
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ol y dyddiad cau penodedig

**Dymuna** Joan, Pat a Ceris, plant y ddiweddar Bessie Ellis, gynt o 15 Cremlyn, Bethel, ddatgan eu diolch diffuant am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt fel teulu yn ei profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl.

Diolch arbennig i'r Parch Eryl Lloyd Davies, Llanrwst, a'r Parch Marcus Robinson, Bethel, am eu gwasanaeth.

Mawr ddiolch am yr holl gymorth a dderbyniwyd gan Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis.

**Pwyllgor Eisteddfod Bethel** Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi a chyfrannu at y Noson Goffi ddiweddar; i rieni a phlant ddaeth i gofrestru ar gyfer cystadlaethau ac i'r pwyllgor am eu hamser.

Plant sydd eisiau cystadlu mewn partion cerdd a / neu llefaru (cynradd ac uwchradd) ac heb gael cyfle i gofrestru i roi eu henwau i Lowri (670 329) erbyn Medi 20fed.

Mae Rhaglen yr Eisteddfod bellach wedi ei chyhoeddi a chopiau ar gael am ddim yn y Swyddfa Bost.

Cyfarfod nesaf Pwyllgor yr Eisteddfod i'w gynnal nos Fawrth, Medi 10fed 2013 am 7 o'r gloch yn Festri Capel Bethel.

**Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau** i holl ieuenctid y pentref ar eu llwyddiant dros yr haf. Dymuniadau gorau iddynt i gyd yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau gan nain Penmon i Elena Slater Parry, Parc y Wern, ar dderbyn gradd BSc (Anrhydedd) mewn Cemeg ym Mhrifysgol Bangor.

**Diolch** Dymuna Gareth, Rhian, Lois a Rhys, Erddig, ddiolch o galon i gymdogion, ffrindiau a theulu am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, Robert Eilian Hughes. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ymchwil Alzheimer UK.

**Merched y Wawr** Cafwyd noson hynod o ddiddorol i orffen ein tymor dan lywyddiaeth Glenys, trwy ymweld â Llysoedd y Goron a'r Ynadon yng Nghaernarfon ar nos Fercher, y 12ed o Fehefin. Roedd Eurgain Jarvis a Ffion Medi yn ein tywys o amgylch yr adeilad ac yn egluro inni am y gwahanol achosion. Yn ffodus, ni charcharwyd yr un ohonom yn y celloedd! Ymlaen â ni wedyn i westy Fictoria ym Mhorthaethwy lle cafwyd bwffe blasus. Croesawyd pawb gan Glenys a chydymdeimlwyd â theulu Katie Hughes, Coed Bolyn, a fu yn aelod ffyddlon o'r gangen am flynyddoedd. Dymunwyd yn dda i Gwyneth Williams, sydd adref o'r ysbyty ac anfonwyd cofion cynnes at Nancy Williams sydd yn dal yn yr ysbyty. Diolchodd i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith dros y flwyddyn, a dymunwyd yn dda i'r darpar lywydd, Jen Roberts a'i phwyllgor am y flwyddyn nesaf. Diolchodd Jen i Glenys am drefnu noson lwyddiannus. Enillwyr y raffl oedd Bet Owen, Liz Watkins, Mair Price, ac Eirlys Williams.

**Merched y Wawr** Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor yn festri Capel Cysegr nos Fercher, Medi 11eg am 7.30. Y gŵr gwadd ar y noson fydd Neville Hughes (Hogia Llandegai). Bydd swper blasus a chroeso cynnes i bawb, aelodau hen a newydd, dan lywyddiaeth Jen Roberts. Mae rhaglen ddifyr wedi ei pharatoi fydd yn plesio pawb gobeithio, edrychwn ymlaen i'ch gweld.

**Dymuna** Edwina a Dafydd a'u teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb. Hefyd, diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu cymorth, cefnogaeth a charedigrwydd, am y llu cardiau, galwadau ffôn a llythyrau a gafwyd yn ystod y cyfnod anodd yma ac am y rhoddion hael i Cyfeillion Ysbyty Eryri. Diolch i staff yr Ysbyty am eu gofal ardderchog. Diolchir i'r Parchedigion Marcus W. Robinson am y gwasanaeth ac R.E. Hughes am ei deyrnged arbennig. Diolchwn i Dylan a Meinir Griffith, Penisarwaun am drefniadau hynod o barchus a thrylwyr ac am fod o gymorth a chysur mawr i ni fel teulu ar adeg mor drist.

## Margaret Wyn Jones, Cefn, Bethel

**Yn dilyn gwasanaeth angladd Margaret yn yr Amlosgfa ym Mangor, rhoddwyd ei gweddillion i orffwyso ym medd ei rhieni ym mynwent Llanddeiniolen.**
**Gwasanaethwyd yn ei hangladd gan y Parchedig Marcus W. Robinson a'r Parchedig R.E. Hughes, Nefyn, a draddododd y deyrnged isod yn ystod y gwasanaeth.**

## Ffarwel y Ferch y Llaeth
## Margaret Wyn Jones
## Gorffennaf 1943-Gorffennaf 2013-08-17

Pan oedd yr haf eleni ar ei orau, hunodd Margaret yn dawel yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, ar drothwy ei phen-blwydd yn 70 oed. Cyn noswylio, cafodd gystudd caled a ddioddefodd yn ddoeth a dewr.
Margaret oedd merch hynaf y diweddar Mr a Mrs Sam Jones, a chwaer Edwina a Dafydd. Yn y Cefn y treuliodd ei bywyd, gan gynorthwyo'i thad gyda'r rownd lefrith ym Methel a'r cylch. Wedi marwolaeth ei thad, cariodd y busnes ymlaen am dros hanner can mlynedd, bron i ddiwedd ei hoes. Bu'r misoedd ola'n anodd oherwydd llesgedd blin a nychdod ciaidd ond daliodd ymlaen gyda'i fan las i ddanfon llefrith i'w chwsmeriaid, gwaith oedd wrth fodd ei chalon ac a gyflawnodd yn hamddenol a phwyllog, gan aros ar ambell aelwyd am banad a sgwrs. Doedd amser ddim yn bwysig iddi. Cyrhaeddai ambell gartre tuag un o'r gloch, dro arall tua phedwar, ond gwyddai pawb y byddai'n siŵr o ddod. Byddai'n ofalus iawn o bawb, yn arbennig yr hen a'r unig, ac yn barod iawn i nôl nwyddau o'r siop neu gynnig rhyw help.
Nid y rownd lefrith oedd yn bwysig ond cymdeithasu a mwynhau'r cyfeillgarwch a blannodd yng nghanol ardal Bethel. Gwyddai hynt a helynt y trigolion a phe dymunai unrhyw un wybod am lawenydd neu dristwch yn yr ardal, gofynnid i Margaret – roedd hi'n siŵr o fod yn gwybod. Nid busnesu na hel straeon y byddai ond cymryd diddordeb ym mhawb ar ei thaith ddyddiol wrth ddanfon llefrith i'r cartrefi. Sawl tro y treuliodd amser ar aelwyd ambell gwsmer, pan deimlai fod y cwsmer yn unig a digalon, heb weld neb y diwrnod hwnnw. Eisteddai Margaret am sgwrs gynnes a'i chwerthiniad iach fel eli i galon y cwsmer. Lawer tro bu ei chnoc ar y drws yn awel iach i deulu.
Nid teip modern oedd Margaret wrth ei gwaith ond yr hen deip, hen ffasiwn, sydd yn diflannu o'n hardaloedd. Ac ar eu hôl, mae gwacter mawr.
Dosbarthodd alwyni o lefrith yn ei hoes ond fe ddosbarthodd hefyd lawer o garedigrwydd a chonsyrn am arall. Am hynny, fe'i cofir yn hir gan ardal a chylch eang o ffrindiau a ddaeth ynghyd i'r Amlosgfa ym Mangor i'r gwasanaeth angladd ar Orffennaf 26. Roedd y capel yn orlawn a'r dyrfa'n dweud digon am bersonoliaeth a chymeriad unigryw Margaret.
Deuthum i'w hadnabod gyntaf yn ystod haf 1967. Cyflwynwyd hi i mi gan gyfaill ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd fel un fyddai'n aelod i mi ym Methel pan ddeuwn yno'n Weinidog Bro i'r ardal. O hydref y flwyddyn honno hyd heddiw, ni fu raid i mi newid fy meddwl amdani.
Cofiaf ryw fore Sadwrn, pan oeddem yn yw ym Mryn Banon, a ninnau wedi aros yn hwy nag arfer yn ein gwely, godi i agor y drws i'n corgi bach ifanc fynd allan, cyn mynd yn ôl i'm gwely gyda 'mhanaa. Ymhen deng munud, cloch y drws yn canu. Codi ac agor y drws. Pwy oedd yna ond Margaret gyda'r corgi bach dan ei chesail. Roedd Teifi wedi neidio dros y wal a rhedeg ar ôl y fan lefrith i Saron! Ond daeth Margaret ag ef yn ôl yn ddiogel – enghraifft o'i chonsyrn a'i chymwynasgarwch.
Un o'r hen griw oedd Margaret, criw arbennig a nodedig oedd ym Methel yn ystod fy ngweinidogaeth yno. Ar amgylchiad fel hyn daw hiraeth a chwithdod mawr amdanynt. Heddiw, rydym wedi dod at y wal derfyn rhwng dau fyd i gyflwyno Margaret yn ôl i'r llawenydd a'r llonyddwch tangnefeddus sy'n ein haros ar derfyn ein rhawd yn y byd yma. Erbyn hyn, mae hithau ymysg y cwmwl tystion, wedi cyflawni ei dyletswydd yn ei ffordd ddihafal ei hun. Nid oedd arni hi eisiau bod yn neb arall ond Margaret Cefn a'i rownd laeth. Ni welir neb 'run fath eto.
Ateb y diweddar fardd, y Parchedig R.S. Thomas, pan ofynnwyd iddo a oedd ofn marw arno oedd: 'I came from God and I am going back to God.' Boed i hynny fod yn gysur ac yn obaith i'r teulu ac i ninnau yn ein hiraeth a'n chwithdod wrth ffarwelio â chwaer arbennig a modryb, nith a ffrind.

## YSGOL BETHEL

Criced Aeth criw o ddisgyblion Bl.5a6 i gymeryd rhan mewn cystadleuaeth Criced yng Nghaernarfon yn ystod mis Mehefin. Roedd tri thîm o'r ysgol yn cystadlu. Gweithiodd pob tîm yn galed, a gwnaeth pawb fwynhau yn fawr. Aeth un tîm o'r bechgyn drwodd i'r rownd nesaf ym Mhwllheli. Ail gafodd yr hogiau y tro yma, ond roedd yn agos iawn rhwng y ddau dîm yn y gêm derfynol. Da iawn chi!

**Mabolgampau 2013** Cafwyd Diwrnod Mabolgampau llwyddiannus iawn gyda phawb yn llawn brwdfrydedd yn gwneud eu gorau i'w tîm. Garth oedd y tîm buddugol ar y diwrnod. Llongyfarchiadau mawr, Garth. Bu cystadlaethau neidio a thaflu cyn y dydd yna diddanwyd pawb gyda rasys rhedeg, cyfnewid, rhwystr, taten ar lwy ac eleni am y tro cyntaf, y ras sach. Llongyfarchiadau i Iestyn Griffiths ac Angharad Jones am ennill y tlysau yn yr Adran Iau ac i Tomos Gibson ac Alaw Jones am ennill y tlysau yn yr Adran Babanod.

Tenis Aeth criw o ddisgyblion i gystadlu yn y gystadleuaeth tenis yng Nghaernarfon. Aeth pawb ati i wneud eu gorau glas, ac roedd y gemau yn agos iawn drwy gydol y dydd. Llwyddodd dau dîm o'r ysgol i gael cyntaf, ac aethant ymlaen i'r rownd derfynol yn Wrecsam. Llwyddodd y tîm i ddod yn ail yn y twrnamaint. Dipyn o gamp, fechgyn. Da iawn chi.

**Gwasanaeth Tân** Daeth ymwelydd o'r Gwasanaeth Tân i siarad am bwysigrwydd larymau mwg. Cafodd y plant gyfle i edrych ar y wisg a'i gwisgo.

**Yn y goedwig** Aeth Bl 3 a 4 ar drip i Goedwig Bethesda fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth mewn perthynas â'r Comisiwn Coedwigaeth. Bu pawb yn brysur yn chwarae gemau oedd yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coed fel cynefin, cymryd rhan mewn helfa drysor ac yna'n cael y cyfle i greu cynefin eu hunain gan ddefnyddio deunyddiau ar lawr y goedwig. Aeth Bl5 a 6 ar drip i Coed Doctor, Llanberis, fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth mewn perthynas a'r Comisiwn Coedwigaeth. Bu pawb yn brysur yn chwarae gemau oedd yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coed fel cynefin, cymryd rhan mewn helfa drysor ac yna'n cael y cyfle i greu cynefin eu hunain gan ddefnyddio deunyddiau ar lawr y goedwig. Fel rhan o waith celf cafodd y disgyblion gyfle i greu celf amgylcheddol.

**Miri Mai** Cynhaliwyd noson Miri Mai gan Ffrindiau Ysgol Bethel i godi arian tuag at i-pads yn yr ysgol. Cafwyd llawer o hwyl gan y plant a'r oedolion yn troi eu llaw at geisio ennill ar y stondinau amrywiol. Casglwyd elw o bron i £800. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Teacher2Parents** Yn dilyn cyfnod o dreialu, mae'r ysgol wedi ymrwymo i'r cynllun Teachers2Parents er mwyn cysylltu efo rhieni. Rwy'n siŵr fod pob un o'r rhieni yn gwerthfawrogi'r negeseuon testun maent yn ei dderbyn yn rheolaidd.

**Cwmni'r Frân Wen** Cafodd y Babanod gyflwyniad dramatig gan Gwmni'r Frân Wen. Fel dilyniant i'r perfformiad daeth yr awdures, Angharad Tomos, i'r ysgol i gynnal gweithdy efo'r plant. Roedd Angharad yn canmol brwdfrydedd y plant yn arw iawn.

**Ymweliadau gan rieni** Bu nifer o rieni yn ymweld â dosbarth Lliwedd i sôn am eu gwaith. Ymysg rhain oedd nyrs, plismon a phlismones a dynion tân. Daeth yr injan dân i'r buarth a chafodd nifer o'r plant fynd i mewn iddi!

**Clybiau ar Ôl Ysgol** Mae nifer o blant yr adran Iau wedi mwynhau aros ar ôl oriau ysgol efo'r athrawon a rhai o'r cymorthyddion i gymryd rhan mewn clybiau gwahanol. Cynhaliwyd glybiau coginio, chwaraeon, Celf a garddio drwy gydol o flwyddyn yn wythnosol.

**Tripiau Ysgol** Cafodd yr Adran Iau dywydd bendigedig ar eu taith i Gelli Gyffwrdd yn ddiweddar. Pawb wedi cael diwrnod gwerth chweil ac yn gwerthfawrogi y cysgod yn y coed! Bu'r Babanod ar daith i'r Den yn Llanberis a chawsant gyfle i fynd ar Drên Bach y Llyn yn ogystal ag ymweld â'r Amgueddfa Llechi. Diwrnod prysur iawn!

**Cyfeiriannu** Cystadlodd Bl 5 a 6 yng Ngŵyl Gyfeiriannu Ysgolion Arfon. Llongyfarchiadau i bedwar o'r plant am fynd drwodd i'r rownd derfynol yng Nglynllifon. Da iawn chi, Gwenllian a Heledd a Celt a Bedwyr.


**Sgiliau Seiclo a Cadw'n Saff ar y lonydd** Bu Bl6 yn ffodus i gael cymryd rhan mewn gwersi beicio yn ystod y tymor hwn. Llwyddodd pob un i basio'r cymhwyster! Cafodd plant Bl 1 a 2 gyfres o wersi diogelwch ar y ffordd, Kerb Craft. Diolch i'r rhieni a gynorthwyodd yn y sesiynau.

**ABCH** Cafodd pob un dosbarth gyfres o wersi ABCH gan swyddog o'r Heddlu. Gwersi a oedd yn ymwneud â diogelwch ar y we oeddent. Roedd pawb wedi gwrando'n wych ac wedi ymateb yn aeddfed dros ben.

**Bethel, Caernarfon**
Tŷ dwy lofft ar gael i'w rentu o ddiwedd Gorffennaf ymlaen.
Heb ei ddodrefnu neu wedi'i ddodrefnu yn rhannol
£495 y mis. - 07702788073

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



YSWIRIANT FUW
Hoffech chi hybu:
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig
Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes
Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned
Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

# Gwirfoddolwyr

Parha ein gwirfoddolwyr i'n cefnogi yn yr ysgol. Diolch i Mr Gwerydd Griffiths, ein gwirfoddolwr darllen ffyddlon. Mae plant Bl 5 a 6 wedi cael pleser mawr yn darllen "Billionaire Boy" gyda Mr Griffiths yn ystod yr wythnosau diwethaf. Pob un ohonynt yn cael profiadau gwych yn trafod y testun ac yn cael cyfle i fynd o dan groen cymeriadau'r nofel. Diolch hefyd ar ddiwedd blwyddyn i'r genod gwau - Mrs Mary Hughes, Mrs Valmai Owen a Mrs Betty Owen. Mae'r bechgyn a'r genethod wrth eu bodd yn cael mynd at y "genod" ar brynhawn dydd Gwener.

*Angharad, Iestyn, Tomos ac Alaw yn ennill y tlysau yn y mabolgampau.*





*Y tîm tenis*




*Criced*



*Heledd a Gwenllian yn brysur yn cyfeiriannu.*




*Rhai o fechgyn y tîm criced.*

**CAEATHRO - BYNGALO AR OSOD**

**Lolfa, cegin, 2 ystafell wely, stydi neu ystafell wely fach, ystafell haul, gardd sylweddol. Heb ei ddodrefnu. Lleoliad tawel cyfleus. Dim cŵn na smygu.**

**Ffôn 01286 830640, 07774 780499 neu 07747 731744**

**AR OSOD**

**BETHEL Caernarfon**

**Tŷ Dwy Lofft ar Gael**
**I'w RENTIO o ddiwedd Gorffennaf**
Heb ddodrefnu neu wedi'i ddodrefnu yn rhannol

**£495.Y MIS ▸ 07702788973**

Cofiwch ddefnyddio
**SWYDDFA POST BETHEL**
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

**ORIAU AGOR**
5.30am-7.30pm
(Llun–Sadwrn)
5.30am-3pm(Sul)

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

**A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)**


J2O

**Gwasanaeth Gwres a Plymio**

**Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio**
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

**Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW**
**Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718**

# Trên Llanberis



*Y gwasanaeth ar fin gadael am y Rhyl un noson yn ystod yr haf poeth iawn yn 1959.*
*(Y llun a'r wybodaeth gan W. S. Becket, Deiniolen).*


Ffaith fach i chi - mae'n debyg mai Llanberis sy'n dal y record am drenau rhith weithiol - trenau sy'n rhedeg, ond nid yn ymddangos yn yr amserlen. Agorwyd yr orsaf yng Ngorffennaf 1869 ac roedd Llanber yn mwynhau gwasanaeth o tua deg trên y dydd o Gaernarfon. Yng Nhaernarfon oedd y cysylltiad a'r brif linell oedd yn rhedeg rhwng Porthaethwy ac Afon Wen.

Cafodd dyfodiad bysiau modur ar ôl y Rhyfel Mawr effaith andwyol ar y gwasanaeth ac ym mis Gorffennaf 1932 fe dorrwyd y trenau i un trên nwyddau y dydd - a elwir yn 'Targed 12' - a redai o'r iard ym Mhorthaethwy.

Nid oedd colli'r gwasanaeth yn golygu diwedd y trenau ac am y deng mlynedd ar hugain nesaf, ym misoedd yr haf y gwelwyd hysbysebu trên dyddiol yn rhedeg o'r Rhyl i Llanberis ac yn ôl ar y rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos. Daeth y gwasanaeth hwn i ben ym mis Medi 1962.

**Cyfarfod Blynyddol Y Ganolfan** yn cael ei gynnal yn am saith o'r gloch yr hwyr ar nos Fawrth, Medi 24ain 2013. Croeso i bawb. Mae gan bob enwad yn y pentref hawl i gael cynrychiolydd ar y pwyllgor.

**Diolchiadau** Dymuna Rhiannon, Richard ac Eifion a theulu y diweddar Mrs Elizabeth Griffiths, 23 Dôl Elidir, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn eu profedigaeth sydyn iawn yn colli mam, nain, mam yng nghyfraith a chwaer annwyl. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanberis.




Blodau Racca
(ALWYN A SARAH JONES)
Ffôn: 870605
- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU



# Llongyfarchiadau

Bu'r haf hwn yn un prysur unwaith eto i un o hogiau talentog Llanberis. Wedi iddo raddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn cerdd a Chymraeg y llynedd, cwblhaodd Iwan Wyn Williams gwrs ymarfer dysgu eleni a sicrhau tair swydd iddo'i hun ddechrau'r haf! O fis Medi ymlaen bydd Iwan yn cychwyn ar bennod newydd yn ei yrfa lwyddiannus, a hynny fel athro yn Ysgol y Gelli Caernarfon, Ysgol y Groeslon ac Ysgol Llandwrog. Un o'i brif ddyletswyddau fydd bod yn gyfrifol am y gwersi cerdd.

Mae Iwan wedi hen ennill ei blwyf fel cyfeilydd ac organydd yn yr ardal ac wedi gwasanaethu sawl côr, eisteddfod, capel, ac eglwys ers rhai blynyddoedd bellach. Ef yw cyfeilydd Hogiau'r Ddwylan ers tair blynedd - braf oedd gweld yr Hogiau ar lwyfan ein Prifwyl yn Ninbych ddechrau Awst.

Cyffrous iawn hefyd oedd perfformiad Iwan a dau o'i ffrindiau, Siôn Elwyn a Daniel Sajko yn y gystadleuaeth ensemble offerynnol gyda'r tri yn chwarae'r un biano! A'i dyma'r tro cyntaf i driawd piano gystadlu yn yr Eisteddfod? Gwyliwch allan am 'Tra bo Tri' yn y dyfodol a llongyfarchiadau i'r hogiau am eu perfformiad gwych - gwledd i'r glust ac i'r llygaid!

Uchafbwynt yr Eisteddfod i Iwan oedd cael ei dderbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd. Braint ac anrhydedd iddo oedd bod yn rhan o weithgarwch a seremoniau lliwgar yr orsedd. Ei enw yng ngorsedd yw Padarnfab. Priodol iawn ac yntau wedi ei fagu wrth Llyn Padarn ac wedi mynychu Ysgol Dolbadarn ac Eglwys Sant Padarn.

Llongyfarchiadau i ti 'Padarnfab' a phob hwyl i 'Mr Williams' ym Mis Medi.

Diolchiadau Dymuna Eunice Roberts, 15 Maes Padarn, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y llu dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 85 oed yn ddiweddar.

Yn dilyn eu pen-blwydd arbennig yn 90 oed dymuna Nellie Morris, 76, Maes Padarn a Hannah Jones, Tawel Lan, Ffordd Padarn, ddatgan eu diolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl ddymuniadau da, anrhegion, cardiau a blodau a dderbyniwyd ganddynt.

**Côr Meibion Dyffryn Peris** Oherwydd eu cysylltiadau, lleol a phersonol, â Hogiau'r Wyddfa, derbyniodd y Côr wahoddiad i gymryd rhan yn Noson Lawen yr Hogiau, ar faes yr Eisteddfod yn Ninbych. Disgwylir i'r rhaglen gael ei darlledu yn ystod tymor y Nadolig.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

**Cyfarchion** i Catrin Heledd, Meini Gleision ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Awst 17eg. Llongyfarchiadau iddi hefyd am basio ei arholiad piano Gradd 7 gyda Chlod ac am ei llwyddiant yn ei arholiadau Lefel A ac sydd wedi sicrhau lle iddi ym Mhrifysgol Fetrpolitan Caerdydd (UWIC) ym mis Medi i ddechrau cwrs 'Gwyddorau Iechyd'. Pob hwyl ar dy astudiaethau yno Catrin.

**Llongyfarchiadau** hefyd i'w chwaer, Bethan Mai, sydd newydd raddio o'r un Brifysgol ac wedi derbyn swydd fel Therapydd Iaith a Lleferydd yn Arfon a Dwyfor. Pob dymuniad da i'r ddwy ohonynt i'r dyfodol.

### Yr Eglwys Bresbyteraidd

Ymweliad yr Henaduriaeth Nos Fawrth, Gorffennaf 9fed, cafwyd ymweliad o Henaduriaeth Arfon â'r Eglwys. Croesawyd pawb gan Lywydd yr Henaduriaeth, Lowri Roberts Williams, i ystafell Bwyty Caban – safle unigryw yn wir i aelodau'r Henaduriaeth gyfarfod ond delfrydol ar noson mor hafaidd. Roedd llawer achos i lawenhau am y modd y bu i'r Achos ym Mrynrefail gael ei ddiogelu drwy sefydlu yn y Caban ac fod safle y Capel yn edrych mor hardd erbyn hyn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Jennie Angharad Roberts a Gwyn Hefin Jones. Cafwyd ymateb calonogol i'r Holiadur ar sefyllfa'r eglwys a baratowyd gan yr ysgrifennydd, Gwyn Hefin Jones gan Eirian Howells, Berea Newydd. Cafwyd gair gan y Gweinidog y Parch Marcus Wyn Robinson, fel un â'i wreiddiau yn y pentref, yn mynegi'r fraint o gael gwasanaethu'r eglwys fel bugail a'r eglwys, wedi cyfnod maith yn ddi-fugail, yn awr yn rhan o ofalaeth Glannau'r Saint. Anfonwyd cofion arbennig at un o flaenoriaid yr Eglwys, sef Bertie Roberts, Llwyncoed Bach, sydd yn gaeth i'w gartref ers peth amser, gan ddiolch iddo am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Ar derfyn y cyfarfod mwynhaodd pawb luniaeth wedi cael ei baratoi gan Caban. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r Eglwys am ei chroeso i'r Henaduriaeth gan y Parch Dafydd Hughes ar ei ymweliad nos Sul, Gorffennaf 14eg.

Y Gymdeithas Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas, Nos Iau, Gorffennaf 25ain. Croesawyd yr aelodau a chafwyd myfyrdod pwrpasol gan Gadeirydd y noson, Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Y siaradwr gwadd oedd yr hanesydd teulu, Mr Hywel Roberts, Caernarfon. Testun ei sgwrs oedd 'Pechaduriaid Penmachno?' Mae'n amlwg fod adrodd hanes ei deulu yn rhoi pleser arbennig i Mr Roberts. Soniodd am hanes diddorol ei hen nain, Margaret Anna Jones, yn dilyn achos o lofruddio yn y teulu. Rhoddodd y sgwrs ddarlun byw o fywyd y gwahanol haenau o gymdeithas mewn ardal wledig fel Penmachno. Gadawodd Mr Roberts y gynulleidfa i ateb y cwestiwn, 'Pwy mewn gwirionedd oedd pechaduriaid Penmachno?' Diolchodd y Cadeirydd yn gynnes iawn am noson ddiddorol a chafwyd trafodaeth fywiog yn dilyn. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fawrth, Medi 3ydd ,yng nghwmni'r cerddor Gwilym Lewis, Caergybi.

Cofion Mae ein cofion yn mynd at Verna Jones, Meillionen, a drawyd yn wael yn Sioe Flodau Amwythig yn ystod y gwyliau ac wedi ei chipio i'r Ysbyty yno. Hyderwn y bydd yn cael dychwelyd i'w chynefin yn fuan. Wedi dioddef o anhwylder ers rhai wythnosau ond yn graddol wella, roeddym wedi gweld bwlch ei cholli o'r oedfaon ar y Sul yn ystod misoedd yr haf. Dymunwn adferiad buan iddi a chael ei chroesawu i'n plith unwaith eto.

### Oedfaon Medi am 5.30 yr hwyr

| | |
|---|---|
| 1: | Parch Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern |
| 8: | Parch Marcus Wyn Robinson ( Gweinidog) |
| 15: | Parch Reuben Roberts, Bontnewydd |
| 22: | Mr John H. Hughes, Llanberis |
| 29: | Mr Merfyn Jones, Caernarfon |

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



**Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:**
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
**www.ageuk.org.uk/products**

AGE Concern
Age UK

**Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.**
**Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.**
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Cist Gymunedol
**Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?**
Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.
**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057
www.gwynedd.gov.uk

**Diolch** Mae'n bleser gan Seindorf Arian Deiniolen ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor Rheoli Canolfan Dinorwig am eu rhodd ariannol hael i gronfa'r Band. Diolch hefyd am y piano a gaiff gartref iawn yn yr Hen Felin.

**Llongyfarchiadau mawr** i Seindorf Arian Deiniolen ar ennill y wobr gyntaf yn Dosbarth A yn yr Eisteddfod, gyda Lois Eifion yn arwain. Lois wedi bod yn byw hefo'r teulu yn Nhŷ'r Ysgol am dipyn o flynyddoedd, ac wrth gwrs, yr oedd taid a nain yn falch iawn o'i chael. Buasai Ifan wrth ei fodd heddiw hefo llwyddiant mawr Lois, gan ei bod wedi gwneud yn anrhydeddus iawn hefo'i haddysg. Hefyd mae gan yr ardal ddyled fawr i'r Seindorf, gan eu bod wedi cadw llawer i gyngerdd yn yr ardal. Diolch iddynt.

Lois, Dal ati i ni gael gweld llawer mwy o wobrau yn dod i'r Seindorf.

**Cwyno** Mae llawer yn yr ardal wedi bod yn cwyno yn ystod y gwyliau, rhai wedi bod yn yr ysbyty a'r lleill wedi bod yn cwyno yn y cartref. Gobeithio eich bod i gyd yn gwella a byddwch yn gallu mwynhau eich bywyd unwaith yn rhagor. Yn sicr ddigon yr ydym yn anfon ein cofion at Mrs Alice Thomas yn y Cartref yn Llanberis gan ddymuno y gorau iddi hithau.

**Dymuniadau Gorau** Erbyn hyn, gwaetha'r modd, y mae y dyddiau yn tynnu i mewn , felly wrth gwrs, y mae gwyliau'r haf yn tynnu tua'u terfyn a'r tywydd wedi bod yn fwy caredig hefo ni'r haf yma na'r llynedd. Carwn ddymuno yn dda i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol i fynd i'r coleg neu i unrhyw swydd arall. A carem gofio hefyd am y rhai fydd yn gorfod mynd i'r ysgol am y tro cyntaf, gan newid eu byd bach diniwed yn gyfan gwbl am byth, gan gofio nad oes ganddynt syniad beth sydd o'u blaenau a gobeithio y byddant yn gallu cartrefu i'r bywyd newydd mewn byr amser.

**Arholiadau** Llongyfarchiadau mawr i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau, gan obeithio eu bod yn hapus hefo'r canlyniadau ac y gallant fynd ymlaen â beth bynnag yr oeddynt wedi edrych ymlaen i'w wneud. Hwyl fawr a phob lwc i'r holl blant a'r ieuenctid i'r blynyddoedd a ddel.

**Llongyfarchiadau** Penblwydd hapus cyntaf i Efa Jane, 1 Bro Elidir, ar Gorffennaf 19. Erbyn hyn y mae yn cerdded ac ym mhob peth. Pob bendith, iechyd a hapusrwydd i ti Efa, i'r blynyddoedd sydd o'th flaen.

**Gorsaf Pleidleisio** Ni fydd modd cael pleidleisio yn Ninorwig eto gan fod y Ganolfan ar werth. Felly mae gennych ddewis o fynd i'r Orsaf yn Neiniolen, neu gael pleidlais drwy'r post. Mae'n ymddangos na fydd dim o bwys yn digwydd yn yr ardal eto, mae yn brysur fynd yn ardal Seisnig iawn.

**Marwolaeth** Yn ystod Gorffennaf daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mrs Eirlys Elizabeth Birch, sef i ni yn yr ardal, Eirlys Braich Poeth. Pan yn ifanc iawn bu i Eirlys a'i chwaer, Anne, gan eu mabwysiadu gan Mrs Hannah Jane Jones, Braich Poeth a chafodd y ddwy gartref arbennig iawn. Yr oeddynt yn dod i addoli hefo Mrs Jones i Eglwys MC Dinorwig a'r ddwy yn aelodau ffyddlon o'r Ysgol Sul. Cafodd y ddwy eu haddysg gyntaf yn Ysgol Gynradd Dinorwig, ble yr oeddynt yn hapus iawn. Bu i Anne farw rai blynyddoedd yn ôl wedi cystudd hir iawn.

Priododd Eirlys hefo Frank Birch ac fe fu iddynt fynd i gadw gwesty yn Llandudno. Ganwyd iddynt ddau o blant, sef Sara a Richard ond fe fu Frank farw yn sydyn iawn. Wedi ei phrofedigaeth fawr bu i Eirlys ddod yn ôl i bentref Stablau, Llanrug. Yn Stablau roedd Eirlys yn byw cyn iddi gartrefu yma yn Ninorwig. Collodd Eirlys ei llygaid trwy ddamwain pan yn ifanc iawn ond, rai blynyddoedd yn ôl, bu iddi fynd yn ddall dros nos ar ôl bod ar wyliau yn Ne Affrica. Ar ôl hyn bu iddi gael ci tywys a fu o gymorth mawr iddi ac yn gwmni a daeth yn aelod ffyddlon o Glwb Cŵn Tywys Caernarfon.

Rhyw ychydig cyn y Nadolig bu i Eirlys gael ei tharo'n wael. Yr oedd ganddi salwch blin iawn a chafod dipyn o driniaeth yn yr ysbyty. Yn ystod mis Mai bu i'w salwch waethygu a bu raid iddi symud at Richard, y mab, yn Groeslon, ac yno y bu nes iddi golli y dydd ar 17 Gorffennaf yn 74 mlwydd oed.

Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, 24 Gorffennaf. Yn arwain y gwasanaeth oedd y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon. Yn cerdded o flaen yr arch roedd Gwynfor (yr ymgymerwr) ac Irfon (Craigle gynt) hefo ci tywys Eirlys. Bu i Irfon fod yn hynod o garedig hefo Eirlys am flynyddoedd. Diolch o galon i ti, Irfon, am dy garedigrwydd mawr hefo Eirlys, pryd yr oedd angen arni. Heddwch i'w llwch.


CHIROPODYDD
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD
GALWADAU I'R CARTREF
Cysylltwch- Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384



FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260

PRYDAU DA AR GAEL POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS
Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch
TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00
Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

GWASANAETH GARDDIO
OWEN
GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO
07901648008



# CHWILOTA

## Ymweliad Teulu o'r 'Mericia a dirgelion hen adfail.

Yn ystod misoedd yr haf daeth pump aelod o'r un teulu yn America i aros i Ddinorwig er mwyn cael ymweld â chartrefi eu hynafiaid yn y fro. Roedd Luned Meredith o Lanuwchllyn wedi ysgrifennu hanes Griff Evans yn rhifyn 19 (Chwefror 2013) o Llafar Gwlad, ac yr oedd mewn cysylltiad â rhai o'i ddisgynyddion yn America. Cysylltodd â mi, a threfnu i gyfarfod y teulu a'u hebrwng o amgylch yr ardal. Roedd cysylltiadau teuluol ganddynt Bryn Criafolen, Clwt y Bont, Tan y Foel, Deiniolen ac Adwy'r Waen, Cwm Brwynog. Roedd cangen arall o'r teulu yn deillio o Lanllyfni a Llanwnda. Ardal Llanwnda a achosodd y broblem fwyaf o ran darganfod cartrefi'r hynafiaid. Roedd y cysylltiadau teuluol yn ymestyn ar hyd afon Gwyrfai o'r Bontnewydd i Fetws Garmon, ac felly'n ymylu eto ar fro'r "Eco". Cafwyd cwmni Duncan Brown ar y daith hon, ac yr oedd ymweld â Chae'ronwy (Cae Goronwy) wedi ennyn chwilfrydedd y ddau ohonom.

Yr oedd Cae'ronwy ym mhlwyf Llanwnda, ond fe'i trosglwyddwyd (ynghyd â thai eraill ardal Allt Coed Mawr) i blwyf Betws Garmon. Eto'i gyd, y Waunfawr oedd ei gyfeiriad post. Dyna greu penbleth cyn cychwyn! Mae'r tyddyn bellach yn adfail ar waelod y llethr serth islaw Cil Haul, ac o fewn lled cae neu ddau i afon Gwyrfai. Roedd cyflwr yr adfail yn awgrymu ei fod wedi bod yn wag ers amser maith, gyda choed anferth yn tyfu allan o'r hyn oedd yn weddill o'r sgubor. Doedd dim math o lôn yn arwain tuag ato: cerdded i lawr y llethr o Gil Haul oedd yr unig fynediad.

Prin iawn yw'r cofnodion am y tyddyn. Fel y gellid disgwyl, mae'n cael ei gofnodi ym mhob cyfrifiad, a'r syndod yw fod teulu yn byw yno mor ddiweddar a 1911. Ar Fap Degwm 1840 mae'n cael ei gofnodi fel eiddo Stad Glynllifon; ynys fechan iawn – pedair acer yn unig - o eiddo'r stad honno yng nghanol ffermydd a thyddynnod eraill yr ardal. Dim ond tri cyfeiriad tuag ato sydd yng nghofnodion helaeth Stad Glynllifon – a'r rheini i gyd o fewn tri mis yn 1766, pan roddwyd y lês i ffermwr y Geufron, plwyf Llanwnda. Roedd yn werth £37 y flwyddyn, sy'n ymddangos yn




*Beddfaen Caeronwy ym Metws Garmon*

eithaf drud os mai pedair acer yn unig oedd y lle bryd hynny. Oherwydd lleoliad anghysbell Cae'ronwy, roedd yn bosibl i'r teuluoedd fu'n byw yno fod yn aelodau o eglwysi plwyf Llanwnda neu Fetws Garmon, ac yn ddiweddarach, yn aelodau i gapeli yn Rhostryfan neu'r Waunfawr. O leiaf, roedd digon o ddewis iddynt, er nad oedd yr un lle o addoliad o fewn cyrraedd hwylus! Bum yn chwilio cofrestrau plwyf Llanwnda a'r Betws Garmon am ganrif, gan obeithio cael cyfeiriad at Cae'ronwy. O fewn canrif gallesid disgwyl gweld amryw gyfeiriadau at fedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau; ond nid felly.

Rhwng 1766 a 1807 methais a chael cofnod o'r eiddo o gwbl. Yn 1807 bedyddiwyd merch i John Owens a'i wraig, Margery yn eglwys Llanwnda. Yn ddiweddarach, priododd hi a mab Gwredog Isa, eto yn eglwys Llanwnda, cyn mudo o'r ddau i'r America. Yn 1837 cofnodir claddu Margery Griffiths o 'Goronwy', Llanwnda yng nghofrestrau Betws Garmon, a'i gŵr, John Owens yn 1845. Mae eu carreg fedd yn rhoi enw cywir y tyddyn. Ar wahan i'r tri uchod, methais a chael cofnod arall yn enwi Cae'ronwy.

Apêl sydd yma felly, am unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r tyddyn. Ydi'r tir bellach yn rhan o eiddo Cil Haul neu un o ffermydd eraill y cyffiniau? A beth am y teuluoedd fu'n byw yno? Oes disgynyddion yn parhau yn yr ardal?

## Bysus D.M. Llanrug.

Yn dilyn y llun a ymddangosodd y mis diwethaf, daeth fymryn mwy o wybodaeth amdano. Cefais wybod mai'r unig ferch yn y llun yw Gwladys (Roberts?), Penbont bach, Llanrug. Roedd hi'n gweini i deulu'r Post. Symudodd yn ddiweddarach i fyw i ardal Bethesda.

## Dim ymateb.

Doedd neb o Ddeiniolen yn fodlon cydnabod fod ganddynt gysylltiad â'r helynt ynglŷn â'r drwm a'r lampau oel! Fu neb chwaith yn crwydro llwybrau'r fro a thynnu lluniau rhai o furddunod yr ardal. Mae'n rhaid fod yr haf braf a phoeth wedi denu pawb i lan y môr.

## Adfeilion.

Daeth gair gan Duncan Brown yn awgrymu y gallai rhai o'r hen adfeilion sydd i'w cael ar diroedd uchel yng nghymdogaeth yr "Eco" fod yn hen feudai. Dywed cymydog o ffermwr iddo fod rhai o'r adfeilion ar y ffriddoedd uchel yn hen feudai ar gyfer gwartheg nad oeddent yn rhan o'r fuches odro. Cedwid y fuches odro ar y tir gorau ger y tŷ fferm, ac yno caent holl sylw'r cowmon. Roedd gwarchod buddiannau'r fuches laeth yn hanfodol, oherwydd roedd y teulu cyfan yn ddibynnol arni am eu cynhaliaeth. Roedd y gwartheg eraill; y rhai hesb a'r heffrod yn gorfod ymorol amdanynt eu hunain ar dir garwach y ffridd – ond fod yno feudai i'w cysgodi rhag gerwinder y tywydd.

Yr awgrym yw fod olion rhai o'r hen feudai hyn i'w gweld ar y ffriddoedd uwchben fferm y Garreg Fawr yn y Waunfawr.

Tybed pa mor ddiweddar oedd yr arferiad hwn yn yr ardal? Oes rhywun all gadarnhau mai beudai ydi rhai o'r adfeilion ar ffriddoedd llethrau isaf Moel Eilio?

## Cenhades o Lanberis.

Yn araf iawn y daw gwybodaeth am y genhades Lena Closs o Lanberis. Soniais amdani yn y golofn hon rai misoedd yn ôl, ond mae'n ymddangos nad oes dim gwybodaeth amdani. Mae cyfaill yn y Llyfrgell Genedlaethol yn gwneud ymholiadau, a daeth Eifion Roberts, Llanberis ar draws cofnod o'i marwolaeth a'i chladdu yn Nant Peris. Roedd erbyn hyn yn briod â gwr o'r enw William Austin. Efallai y bydd yr enw priodasol yn gymorth i ddarganfod mwy amdani.

Y mis nesaf cawn hanes coffadwriaeth am filwr o Ddeiniolen, Cymdeithas Caredigion Dinorwig a mwy am y genhades gobeithio!

Anfonwch unrhyw ymholiad neu ymateb i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant,
Llanrug, Caernarfon (Ffon: 01286 673515)

BYSUS RHIWLAS



Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau "DOUBLE GLAZING"
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269



**Llongyfarchiadau** Estynnwn ein llongyfarchiadau i Catrin Llewelyn Gruffudd ar ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth Unawd Piano dan 16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych eleni.

**Priodas** Dydd Sadwrn, Gorffennaf 27ain yn Eglwys Crist, Llandinorwig, priodwyd Llio Eurgain Morris ac Osian Myrddin Tomos. Mab i'r Canon a Mrs Idris Thomas, Glanrafon yw Osian a merch Mr a Mrs Irfon Morris, Tangarn, Llanfairpwll yw Llio. Cafwyd bore hyfryd ac roedd yr Eglwys yn hardd iawn i'r achlysur.

Yn gwasanaethu yr oedd tad Osian, sef y Canon Idris Thomas, a chymerwyd rhan hefyd gan y Parchedig James Clarke, Llanfairpwll.

Rhoddwyd Llio i ffwrdd gan ei thad, Irfon, y gweision priodas oedd Gari Owen a Gareth Wyn Williams, y morynion oedd Elin Morris a Catherine Jones, y morynion bach oedd Efa Glain a Lois Haf Jones a'r tywyswyr oedd Emyr Morris, Rhodri Tomos, Carwyn Williams a Meilir Tomos.

Cafwyd unawd corned yn y gwasanaeth gan Rhodri Tomos ac offrymwyd y gweddiau priodasol gan Meilir Tomos.

Roedd ymdeithgan y Briodferch, sef Bwlch Llanberis, yn drefniant Irfon Morris, tad Llio.

Roedd holl gerddoriaeth y briodas gan grŵp o aelodau o Seindorf Arian Deiniolen dan arweiniad Gavin Saynor. Aelodau'r grŵp oedd Dylan Hughes, Rhodri Tomos, Rhys Jones, Ieuan Morris, Jeni Lyn Morris, Dylan Williams, Urien Siôn Huws, Meilir Tomos, Dafydd Evans, Goronwy Morris a Carwyn Price.

Ar ôl dod allan o'r Eglwys ffurfiwyd bwâu o utgyrn gan aelodau o Fand Ieuenctid Deiniolen.

Diolchir i Meirion Jones a'i fab, Berwyn, am y trefniadau parcio hwylus a diolch i Warden yr Eglwys, sef Eleanor Morris, am bob cyd-weithrediad parod.

Roedd y wledd briodasol yng ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon; diddanwyd pawb yn yr hwyr gan Dr Jazz o Sir Fôn.

Mae Llio ac Osian yn ymgartrefu yn rhif 5 Rhes Marian, Deiniolen.

**Ymweliadau** Cafwyd ymweliadau ag Eglwys Crist Llandinorwig ym mis Gorffennaf ac roeddent yn gysylltiedig â hanes trist trip Ysgol Sul o Ddinorwig i Bwllheli ar Sadwrn, Gorffennaf 1af 1899, pan foddwyd 9 o blant a 3 oedolyn.

Ymwelodd Mrs.Marjorie Roper o Grimbsy gyda'i merch Audrey a'i gŵr, ac mae Marjorie, sy'n 90 oed, yn or-nith i Mrs.Ellen Thomas, Tyn y Fawnog, Dinorwig, 29 oed a foddwyd yn y drasiedi a hynny gyda'i theulu cyfan, sef ei phriod Owen (33 oed) a'r thri phlentyn Ellen (10 oed), Owen Parry (3 oed) a William Edward (6 oed).

Gwelodd Marjorie y gofeb i'w theulu a'r saith arall yn Eglwys Crist a'r beddau yn y fynwent gerllaw. Cyflwynwyd iddi gopi o'r llyfr sy'n croniclo'r hanes trist yn llawn, sef 'Pêl Goch ar y Dŵr' gan yr awdur, y Canon Idris Thomas.

Daeth dosbarth o Ysgol Gwaun Gynfi i gael hanes 'Pêl Goch ar y Dŵr' ar bnawn Gwener, Gorffennaf 12fed gan y Canon Idris Thomas. Roedd y gwrando yn astud a'r cwestiynau gan y plant yn dreiddgar a bu iddynt oll fwynhau yr ymweliad yn fawr.

**Dymuna** Eurwen, Linda, Nicholas a Jessica, teulu y diweddar Robert Henry Williams (Bertie Pant Gwyn, gynt) sydd yn byw ers rhai blynyddoedd yn Ne Affrica, ddiolch o galon i berthnasau a ffrindiau am y cardiau a'r galwadau ffôn a gawsant yn ystod eu profedigaeth o golli Bertie ar 30 Mehefin. Diolch o galon i bawb.

**Clwb Pêl-droed Ieuenctid**
Mae ymgais eto eleni i gynnal timau pêl-droed i blant y pentref. Yn anffodus nid yw'n ymddangos y bydd tîm dan 7 gan na chafwyd gwirfoddolwyr i'w redeg. Rydym yn obeithiol o allu cynnal tîm dan 9 a dan 11, ond rydym angen mwy o chwaraewyr ac unigolion i gynnig eu help tuag at redeg y timau. Nid oes angen unrhyw brofiad mewn hyfforddi pêl-droed dim ond digon o frwdfrydedd ac amynedd. Cysylltwch gyda Glyn ar 872133.

Cafwyd noson wobrwyo yn ystod yr haf ar y cyd gyda chlwb Llanberis. Gwobrwywyd y tîm dan 11 i gyd a rhoddwyd gwobrau ychwanegol i Toby Fisher fel Chwaraewr y Flwyddyn; Deian Parry fel y Chwaraewr a ddatblygodd orau yn ystod y tymor a Cian Pleming fel y Prif Sgoriwr.

**Oedfaon Medi Cefn y Waun ac Ebeneser**

| | |
|---|---|
| Medi 1: | Y Parch John Pritchard am 10 a 5; |
| Medi 8: | Y Parch Trefor Lewis am 5; |
| Medi 16: | Y Parch John Pritchard |

**Oedfa deulu am 10, Oedfa am 5;**

| | |
|---|---|
| Medi 22: | Mr John Roberts am 5; |
| Medi 29: | Ms Nerys Jackson am 5. |






## *Parhad* DEINIOLEN



**Ysgol Sul Unedig Ebeneser** Daeth diwedd tymor yr Ysgol Sul i ben ar ddechrau'r haf a chafwyd trip hwyliog i ddiolch i'r plant am eu ffyddlondeb trwy'r flwyddyn. I ddechrau, cafwyd ymweliad â'r Ganolfan Bowlio Deg yn Glasfryn, ac yna ymlaen i Gricieth am bnawn o hwyl ar y traeth. Cafwyd diwrnod hynod ddifyr a hwyliog. Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau ar 8 Medi am 10.15 y bore. Croesewir aelodau hen a newydd.

**Mynwent Eglwys Crist Llandinorwig** Fel y gwelwch wrth fynd heibio mynwent yr Eglwys, mae'r gwaith o dorri'r gwair a thacluso yn mynd ymlaen, ac o'r herwydd mae'r fynwent yn edrych yn llawer gwell. Mawr yw ein diolch i Mr Berwyn Jones sydd ,gyda'i gyfaill, wedi ymgymryd â'r dasg anferth yma.

Gan mai'r Eglwys sydd yn cynnal y fynwent byddem yn hynod falch o unrhyw rodd ariannol er mwyn cynnal a chadw. Os ydych yn dymuno cyfrannu, bydd Mrs Eleanor Morris, Mrs Gwen Griffith neu Mr Brian Price yn hynod falch o dderbyn eich rhodd, neu unrhyw aelod o'r Eglwys.

**Gŵyl Deiniolen a'r Cylch**

Ar ddechrau'r haf cynhaliwyd yr Ŵyl eto eleni. Cafwyd wythnos brysur fel arfer a phawb i'w gweld yn mwynhau eu hunain. Roedd y tywydd garw ar ddiwedd yr wythnos yn golygu bod angen symud lleoliad yr Ŵyl o Cae Bwthyn i iard yr ysgol. Er y rhuthro i aildrefnu ar y funud olaf, cafwyd pnawn terfynol llwyddiannus ac yna noson fywiog yng nghwmni Y Bandana yn y Wellington.

Diolch i bawb a weithiodd mor galed i gynnal yr Ŵyl ac i bawb a gefnogodd ac a roddodd yn hael i wneud Gŵyl 2013 yn llwyddiant.




## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Gwasanaethau'r capel**

Medi 1 af am 2o'r gloch: Y Parch Marcus Robinson gyda chyfarfod swyddogion yn dilyn am 3o'r gloch.

**Medi 15** am 2 o'r gloch: Y Parch Harri Parri.

Miri Medi Cynhelir prynhawn o hwyl a gemau ar gae chwarae canol y pentref ar dydd Sadwrn, Medi 7ed o un o'r gloch hyd bedwar o'r gloch. Dewch i ymuno a chymdeithasu.

**Dymuniadau da** i holl ieuenctid y pentref sydd yn newid ysgol, yn dechrau swyddi newydd ac wedi llwyddo yn arholiadau TGAU a lefel A ac yn cychwyn mewn colegau.

**Llongyfarchiadau.** Dymuniadau gorau ar ei ben-blwydd arbennig i Dafydd Iwan, Carrog sydd mor brysur ag erioed ar hyd a lled Cymru.

**Llongyfarchiadau** i Derwyn a Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf pan anwyd mab, Elis Cynan, i Geraint ac Alaw yng Nghaerdydd fis Gorffennaf.

**Tynfa misol** Enillwyr Mis Awst. Josephine Evans, Llwyn Alys (30) £40; Eric a Beryl Roberts, 12 Erw Wen (105) £25; Zonia Bowen, Cefn Coed, Stad Glandwr (12) £15; Sion ac Anna, Y Wern (82) £5.

**Cymdeithas Cae Chwarae** Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar Fedi 16 yn Nhafarn Bryn Gwna am 8.30 yr hwyr. Croeso i holl drigolion y pentref fod yn bresennol i gefnogi a chynnig unrhyw sylwad.

**Clwb Merched Caeathro** Cynhelir cyfarfod cyntaf y gaeaf ar Fedi 26 ain am 8 yh yng Nghanolfan y Capel pryd y cawn sgwrs ar"Helyntion Llys y Sesiwn Chwarter" (yn cynnwys ambell hanesyn am Gaeathro!!) gan John Dilwyn o Archifdy Caernarfon. Bydd hwn yn agored i unrhyw un o drigolion y pentref.

Y swyddogion eleni yw: Cadeirydd, Beryl Roberts, Ysgrifennydd, Rhiannon Roberts, Trysorydd, Bethan Iwan.

## Cofio 'Huw Joci'

**Roedd y diweddar Mr Huw Jones, 22 Rhes Glan Gwna, wedi ei eni a'i fagu a byw erioed yng Nghaeathro. Daeth ei dad, John Jones yma o Dudweiliog a'i fam o Lanaelhaearn. Daeth John i weithio i Castellmai yn gofalu am a thrin ceffylau a byddai Huw yn ei helpu pan yn fach. Datblygodd ei ddiddordeb oes mewn ceffylau,a'i lys enw annwyl iawn yn y pentref oedd 'Huw Joci'. Dyn diddorol ei sgwrs ydoedd, wedi byw yn y pentref am 90o flynyddoedd.**

**Pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd cafodd Huw ei anfon gyda'r Royal Artillery i Kirkwell yn yr Orkneys. Yno y cyfarfu â Margaret a buont yn briod am70 o flynyddoedd. Ganwyd iddynt dri o blant, sef Pat, Carys a John,ac mae John yn dilyn ôl troed ei dad yn ei bleser gyda cheffylau. Prif ddiddordeb Huw oedd Merlod Mynydd Cymreig a byddai yn mynychu sioeau i gystadlu a gwylio.**

**Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Caeathro dan ofal y Parchedig Marcus Robinson gan ddilyn gyda gwasanaeth byr yn yr Amlosgfa ym Mangor. Hoffai'r teulu ddiolch i'r Gweinidog am wasanaethau diddorol ac ysgafn gyda chanu bendigedig. Mae'r teulu hefyd yn ddiolchgar iawn am y llu o gardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion a drosglwyddir i'r Lleng Brydeinig a Meddygfa Waunfawr. Diolchant hefyd am y caredigrwydd a'r gefnogaeth a ddangoswyd gan feddygfa Waunfawr, cymdogion a ffrindiau.**

**Cofio Huw fel dyn ceffyla'<br>
Treuliodd oria yn y sioea'<br>
Llygaid craff i nabod ebol,<br>
Trin y 'ponies' yn naturiol.<br>
Dweud ei farn a gwylio, gwrando,<br>
Dyna Huw Joci o Gaeathro.**

## Carnifal



*Chloe, Brenhines y carnifal.*



*Gareth Pritchard mewn bath o fîns!*



*Joseff Stacey - enillydd y prif wobr Gwisg Ffansi.*

Bu'n haf prysur iawn yn y pentref eleni - diolch byth am dywydd braf am unwaith! Ar y 26ain o Orffennaf cynhaliwyd y carnifal blynyddol, a ddechreuodd wrth i'r frenhines, Chloe, gyrraedd y cae mewn ceffyl a throl. Roedd digon o hwyl i'w gael ar y stondinau amrywiol, yn enwedig taflu bîns, cwstard a sbageti ar Gareth Pritchard a oedd yn eistedd mewn bath! Braf oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd yn mwynhau eu hunain, ond enillydd y prif wobr gwisg ffansi oedd Joseff Stacey, Tan Y Bryn. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at y raffl ac at lwyddiant y noson - yn arbennig i'r Parch Carol Williams a'i gŵr Dafydd am feirniadu'r cystadlaethau.

**Treialon Cŵn Defaid** Ar ddydd Sadwrn, y 10fed o Awst, daeth 55 o gystadleuwyr i gymryd rhan yn Nhreialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r cylch.

Dyma'r canlyniadau:

Dosbarth Cyntaf

1. J.D. Jarman o Dywyn gyda Jaff; 2. Hugh Owen o Ynys Môn gyda Roy; 3. Kevin Davies gyda Lliw.

Ail Ddosbarth

1. Hefin Roberts o Lansannan gyda Meg; 2. Elwyn Griffith o Waunfawr gyda Sweep; 3. John Pritchard o Nant Peris gyda Fflei.

Dosbarth Lleol

1. John Pritchard o Nant Peris gyda Fflei; 2. John Pritchard o Nant Peris gyda Jo; 3. Bryn Griffith o Lanrug gyda Nel; 4. Michael Williams o Gwm-y-glo gyda Nel.

Diolch i bawb am gyfrannu at lwyddiant y diwrnod ac i'r rhai a gyfrannodd yn hael tuag at y raffl.

Gŵyl Ffair Nant Cynhelir y ffair eleni yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar yr 16eg o Fedi. Dyma fanylion y cystadlaethau cartref:

Coginio: 1. Disgyblion Ysgol Gynradd - chwe chacen cwpan wedi eu haddurno; 2. Ysgol Uwchradd - cacen sbwng wedi ei haddurno.

Celf a chrefft: 3. Disgyblion Ysgol gynradd: Addurno llwy bren; 4. Disgyblion Ysgol Uwchradd - unrhyw eitem o gelf neu grefft.

Diodydd: 5. Oedolion yn unig: unrhyw ddiod alcoholig

**Categoriau 6-16 yn agored i bawb.**

Unrhyw gacen; 7. Torth Wen; 8. Unrhyw lysieuyn sy'n edrych yn ddoniol; 9. jam, jeli neu farmaled; 10. Catwad neu bicl.

Trefniant blodau gyda'r thema 'Llechi'

11. trefniant blodau sy'n dangos y thema.

Ffotograffiaeth gyda'r thema 'Ein Bro';

12. Unrhyw waith ffotograffeg (lliw neu ddu a gwyn) yn seiliedig ar y thema.

Gwaith Gwnio:

13. Unrhyw eitem wedi ei grosio, wau neu bwyth croes. 14. Cwilt clytwaith.

Crefft: 15. Unrhyw ddarn diweddar o waith coed, gwydr, garreg neu emwaith.

Categori Agored 16. Bwgan Brain.

Limrigau: cyhoeddir llinellau cyntaf y limrigau ar hysbysfwrdd y pentref.

Bydd angen cyflwyno pob ymgais i'r Prif Farci ar y cae rhwng 11yb a 12 yp ar ddydd Sadwrn, Medi 21ain. Bydd y beirniadu'n dechrau am 12.15.




*Meirion Pritchard yn cyflwyno tarian y Dosbarth Agored i J.D. Jarman, Tywyn.*



*John Pritchard., Nant Peris gyda Fflei.*







**Llongyfarchiadau** mawr i Manon Lyn Pritchard, Fron Rhedyn ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg o Brifysgol Metropolitan, Manceinion a phob lwc iddi yn y dyfodol.

Croeso adref i Elwyn Searell Jones, Dwyfor, ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan iddo.

Neges o ddiolch gan Elwyn S Jones, Dwyfor, Nant Peris:

**Diolch o galon** i deulu, ffrindiau a chymdogion di-rif am bob arwydd o gydymdeimlad ac anwyldeb a gefais ganddynt yn ystod fy ngwaeledd a'm harhosiad o dros 4 mis yn Ysbyty Gwynedd Bangor ac ysbyty'r Royal yn Lerpwl. Roedd myfyrio bod cymaint yn meddwl amdanaf pan yn ddiymadferth mewn ysbyty yn galondid mawr imi. Diolch i holl staff a nyrsys yr NHS a fu mor annwyl tuag ataf a gwên ar eu hwynebau bob amser. Diolch hefyd i feddygon a nyrsys syrjeri Llanberis am eu gofal amdanaf. Diolch arbennig i fy nghyfnither, Mair Davies, Aelyglyn, Llanberis; Janice Tomos, Ty'n Twll a'r ddau frawd hynaws Elfyn ac Eilian Williams. Bu iddynt oll yn eu tro ddod â fy mam annwyl at erchwyn fy ngwely yn yr ysbyty. Diolch yn arbennig i'r Parch John Pritchard Llanberis, bu dim yn ormod iddo ac roedd dod â fy mam i'r ysbyty yn ddim ond un o'r llu o gymwynasau. Diolch hefyd i'r Parchedigion Reuben Roberts, Bontnewydd a D. Ben Rees, Lerpwl am eu cyfraniad. Mor hyfryd a bendithiol oedd gweddi fer y dynion ysbrydol hyn pan ar frig y dibyn. Ni fethodd gweddi daer erioed â chyrraedd hyd y nef. Diolch am gael dod adref fis Mehefin i dangnefedd pentref Nant Peris. Clywed yr adar mân yn canu o fy ngwely yn fy mesmereiddio i gysgu drachefn. Gweld hyfrydwch y mynyddoedd a'r tywydd braf a gawsom yn ddiweddar a gwerthfawrogi bro fy mebyd ar ôl bod yn orweddog mor hir. Câr dy fro a thrig ynddi. Unwaith eto Diolch yn fawr iawn i bawb.

Pan oeddwn i mewn carchar tywyll du

rhoist i'm oleuni nefol.

Haleliwia Amen

# Draenog.

Camgymeriad oedd trio reidio beic i lawr lôn Fachwen. Roedd cymaint o dyllau, rhychau a phonciau ynddi byddai beic mynydd neu hyd yn oed ffôr-bai-ffôr wedi bod yn hwylusach. Ond rydwi'n cael brolio i mi bedlo i fyny Gallt y Foel yn gynt na ffriwilio i lawr Fachwen!



Cist Gymunedol

**Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egnïol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

www.gwynedd.gov.uk

ORIEL CWM
Cwm y Glo

**Ffôn/Ffacs: (01286) 872882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**

# Colli

Yn gynharach eleni roedd adroddiad trist am wyddonwyr blaenllaw yn darogan diflaniad rhywogaethau megis y durtur, y gornchwiglen, cwtiad aur, cacwn a sawl gloyn byw.

Dydd Sul, 26 o Fai, a gwanwyn/haf yn anterth prydferthwch daear lawr, teithiwn i gadw'm cyhoeddiad yng Nghapel y Fron, Dinbych erbyn 10 y bore. Daeth emyn mawreddog William Williams, Pantycelyn i'm cof wrth edrych o'm cwmpas...

'Mi bellach goda i mas

Ar fore glas y wawr

I weld y blodau hardd

Sy 'ngardd fy Iesu mawr.

Amrywiol ryw rasusau pur

A ffrwythau'r paradwysaidd dir.'

Wedi'r oedfa – a'r gyrru adre'n llawn o eiriau yr 'Hen Bant' yn fy meddwl, estynais am Caneuon Ffydd ... Siom! Nid yw'r emyn hwn wedi ei gynnwys ... Colled!

Drwy weddill y dydd yr oeddwn wedi'm haflonyddu i gysylltu'r ddwy golled ... emyn Pantycelyn a'i odlau cyrch crefftus, ei fydr a'i odl hardd ... a'r erthygl ddifrifol am ddyfodol aelodau hyfryd o'n cynefinoedd...

Colli emyn a chreisis daear! Colled!

Daeth tawelwch hyfryd yr hwyr i aelwyd ein bwthyn yn Y Fach Wen ... eisteddais wrth y bwrdd, estyn hen lyfr hymns fy nhad o'r drôr ... a darllen ... na, adrodd ... 'Mi bellach goda i mas...' Edrychais eto drwy 'Mynegai i Eiriau Cyntaf pob Pennill' yn Caneuon Ffydd ...

* Mi af ymlaen...

* Mi benderfynais...

* Mi dafla maich oddi ar...

A dyma fi'n gwneud...
Mae gofid dan fy mron
byd llon sy'n lleddf yn awr,
mae plaid y ddaear hardd,
'Ei Ardd', dan bwysau mawr.
Amrywiol rywogaethau sydd
gan rym ein twf yn colli'r dydd.

Y cornicyllod gwyrdd
a'u ffyrdd uwch cors a dôl,
diflannant toc, fel cŵyr
yn llwyr a di-droi'n ôl;
try natur cynefinoedd crud
yr adar hyn, yn iasoer fud.

Bydd byw heb 'gaci bwm'
mor drwm ei gyrch a'i ffo,
a gwag fydd gardd heb sŵyn
a'r hym mewn llwyn – ar dro;
efô, a'r gwenyn – prysur lu,
bydd maes y meillion – ond lle bu.

Run fath y cwtiad aur
hyd lwybrau'r defaid mân,
hen ffridd, fel ffridd, a aeth
byd amaeth bia'r gân,
bu newid cymdogaethau byw
ansicr mwy rhawd rhyw a rhyw.

Beth fydd ein bro heb rhain
yn llonni llain â'r gwŷdd,
pob gweirglodd wedi mynd
cyd-fynd ar 'Fasnach Rydd'.
Turtur a chog a'r gloyn byw -
a welir eto 'loyw Duw'.

Geirfa

cornicyll, cornchwiglen, hen het – lapwing

caci bwm, cacynen – bumble bee

gwenyn – bee

meillion – clover

cwtiad aur – golden plover

turtur – turtle dove

cog – cuckoo

gloyn byw – butterfly

gloyn Duw – hen enw ar butterflies

*Norman Closs*

# Taith Ysgoloriaeth Iwan Williams




*Cyrraedd copa'r wyddfa*

Dydd Sadwrn Awst 10ed, cwblhaodd 6 o ffrindiau a theulu agos y diweddar Iwan Williams o Ddeiniolen, daith gerdded arbennig iawn. Collodd Iwan frwydr ddewr yn erbyn cancr ym mis Medi 2012, a chan ei fod wedi bod cymaint o ysbrydoliaeth i'w ffrindiau ym Mand Deiniolen drwy gydol ei yrfa gerddorol, sefydlodd y Band Ysgoloriaeth er cof amdano.

I roi cychwyn ariannol cryf i'r Ysgoloriaeth ynghyd â chasglu tuag at gronfa ar gyfer mab Iwan, Owen, penderfynnwyd y 6 (4 o ffrindiau agosaf Iwan, sef Dylan Williams, Dylan Cole-Jones, Carwyn Price a Dave Clegg ynghyd ag Euros ei frawd a Tim ei frawd yng-nghyfraith) fentro ar daith o dros 31 milltir o Ddinas Dinlle i Gopa'r Wyddfa, cyn gwneud eu ffordd i orffen yn y Cwt band yn Neiniolen. Cychwynnodd y 6 o draeth Dinas Dinlle am 3 o'r gloch y bore cyn mentro fyny'r Wyddfa yng nghwmni mwy o ffrindiau a theulu Iwan ac aelodau'r Band. Gan fod 4 o'r cerddwyr craidd yn aelodau neu gyn-aelodau o'r Band, penderfynnwyd bachu ar y cyfle i berfformio fel rhan o bedwarawd pres ar y copa - braf oedd gweld cymaint o ymwelwyr yn mwynhau gwrando ar Gwm Rhondda a Chalon Lân! Ar y ffordd i Ddeiniolen perfformiodd y Band llawn gyngerdd byr yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Cyrhaeddodd y criw y Cwt Band tua 6.30 yn y nos, wedi ymweliad emosiynnol ar lan bedd Iwan.

Hoffai'r trefnwyr a'r cerddwyr a holl aelodau'r Band ddiolch i bawb am eu cefnogaeth anhygoel hyd yn hyn, yn enwedig maent yn dymuno diolch i Lorraine, gwraig Iwan, Val ac Alwyn, ei rieni, am adael iddynt gymeryd yr her ymlaen ac i gael sefydlu'r Ysgoloriaeth er cof amdano. Maent y ndiolch hefyd i'r canlynol am eu cefnogaeth ar y diwrnod: Rheilffordd Llyn Padarn, Rheilffordd yr Wyddfa, Gwesty'r Fic, Llanberis, a'r Amgueddfa Lechi.

Os dymunwch yrru rhodd i'r Ysgoloriaeth, gallwch wneud hynny un ai ar-lein drwy ymweld â https://mydonate.bt.com/events/ysgoloriaethiwan/99373 neu drwy gysylltu â Meirion Jones, ysgrifennydd y Band, ar 01286 870452.



*Cerddwyr a theulu Iwan*



*Pedwarawd ar gopa'r Wyddfa*



*Cerddwyr a chefnogwyr tu allan i westy Fictoria*

# Taith Elusen Malcolm




*Cyflwyno siec i Ward Alaw*

Rhoddwyd cryn sylw yn y wasg ac ar y teledu i daith elusen Ambiwlans Awyr Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ond mae gwr lleol – Malcolm Pitts o Lanrug wedi cwblhau chwech o deithiau elusen dros y saith mlynedd diwethaf i godi arian er cof am ei wraig Yvonne, a fu farw o gancr y fron.

Duathlon – nofio a beicio – yw dull Malcolm o godi arian. Eleni, nofiodd filltir a hanner bob dydd am bum niwrnod ym Mhlas Menai. Yna, gyda'i ffrind, Darren Brame, reidiodd ar hyd Lon Eifion o Gastell Caernarfon i Gastell Cricieth ac yn ol – taith o 56 milltir.

Casglwyd £1,400 eleni, a rhannwyd yr arian yn gyfartal rhwng Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd (ble cafodd Yvonne driniaeth) a Chanolfan Walton, Lerpwl (ble'r achubwyd bywyd Malcolm yn dilyn damwain car ddifrifol yn 1982).

Dymuna Malcolm a'r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y daith elusen ac i bawb a gyfrannodd mor hael unwaith eto eleni tuag at y ddau achos.



*Malcolm a Darren yn cychwyn ar eu taith o Gastell Caernarfon...*



*.. ac yn cyrraedd Castell Cricieth.*




*... ac i Ganolfan Walton.*

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanberis

**COFNODION MEHEFIN 2013:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fawrth y 18fed o Fehefin, 2013 am 7 yr hwyr.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Eurig Druce, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding,
Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas.
Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Croesawyd Derek Jones yn ôl ar wedi ei lawdriniaeth.

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Derek Jones, Dafydd Roberts. (Cais Cynllunio) Barry Davies, (Cae'r Ddôl)

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 14eg o Fai, 2013 fel rhai cywir, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: Emlyn Baylis/Dafydd Roberts

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
*1. Defaid Crwydrol:*
Adroddwyd bod y sefyllfa yn dal i achosi pryder, ac er fod un ardal wedi ei ffensio, roedd y grid yn dal heb ei osod, y tywydd a phrysurdeb y gwanwyn oedd yn cael y bai.
*2. Y Fynwent:*
Adroddwyd sbring cryf wedi ei osod ar giat y Fynwent ac un arall ar giat ochr Mynwent yr Eglwys, gosodwyd arwydd hefyd I atgoffa pobl o bwysigrwydd cadw'r giat ar gau yn mynwent y Cyngor.
*3. Meinciau:*
Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd (CG) wedi gosod y meinciau newydd. Holwyd a oedd modd cael mainc tu ôl i Fynydd Gwefru, dywedodd Barry Davies y byddai yn gofalu amdani. Awgrymwyd y dylid gosod mainc dros y ffordd i'r Feddygfa ger arhosfan y bws. Cynnig ac eilio: Derek Jones/Emlyn Baylis, a phawb yn cytuno. Penderfynwyd cael un ar batrwm y rhai newydd.
*4. Cae'r Ddôl:*
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Ganolfan yn adrodd na chafwyd ymateb oddi wrth CG i lythyrau ynglŷn â dyfodol Cae'r Ddôl. Roedd Y Ganolfan wedi holi a oedd modd cymeryd cyfrifoldeb am y cae oherwydd bod teimlad nad oedd yn cael ei weinyddu er lles y gymuned. Penderfynwyd bod y Cyngor yn gefnogol i gais Y Ganolfan. Cynnig ac eilio: Eurig Druce/Olwen Gwilym. Mae pedwar o aelodau'r Cyngor yn aelodau o bwyllgor Y Ganolfan. Penderfynwyd y dylid cysylltu a CG i weld a ellid cael trafodaeth ar y mater.
*5. Nofio'n y Llyn:*
Codwyd cwestiwn am ddiogelwch nofio ger y Lanfa oherwydd bod llechi ar wely'r llyn. Y farn gyffredinol oedd bod y safle yn ddiogel.
*6. Rheolau Sefydlog:*
Gofynnwyd am gopi electronig o'r rheolau sefydlog i'r aelodau newydd.
*7. Cyrn y Band:*
Rhag i'r offerynau ddirywio ymhellach penderfynwyd eu cynnig i Seindorf Llanrug.
*8. Biniau Baw Cŵn:*
Penderfynwyd gofyn am finiau newydd ar gyfer baw ci yn Lôn yr Eglwys, tu ôl i Mynydd Gwefru, Llainwen Uchaf a Limbo. Bydd y cyngor hwn yn talu am un o'r rhain a CG yn eu gwagio.

**5. GOHEBIAETH:**
*1. CG - Taflen Arwisgo Ffyrdd:*
Derbyniwyd taflen yn egluro'r broses o roi wyneb newydd o gerrig man ar ffyrdd er mwyn er mwyn ymestyn eu hoes.
*2. Un Llais Cymru: C Blynyddol:*
Gwahoddiad i anfon cynrychiolydd i Gyfarfod Blynyddol ULlC yn Llanelwedd ar y 5ed o Hydref, ynghyd a Chyfarfod Blynyddol Ardal Arfon/Dwyfor ar nos Iau Mehefin yr 20fed.
*3. Llywodraeth Cymru:*
Derbyniwyd Dogfen Ymgynghori - Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Rhan 7: Cymunedau a Chynghorau Cymuned.
*4. UHY Hacker Young*
Derbyniwyd llythyr yn nodi Newid i Ffioedd Archwilio Blynyddol. Bydd y ffi sylfaenol yn £150 + TAW.

**5. CG - Gwasanaeth Cyfreithiol:**
Dau lythyr yn datgan bod Gorchymyn wedi ei gyhoeddi i ganiatau cau Lôn Fain er mwyn ei thrwsio. Bydd mewn grym am 6 mis o Orffennaf 1af. Credir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau o fewn 4 wythnos.
*6. CG - Cae Chwarae Min y Llyn:*
Llythyr yn nodi bod angen gwaith trwsio ar offer yn y Cae. Bydd y gost tua £500. Cytunwyd i fwrw 'mlaen a'r gwaith.
*7. Richard Foxhall, Cadetiaid:*
Nodyn yn atgoffa'r Cyngor bod 20 mlynedd ers y ddamwain i hofrenydd y Llu Awyr ac i dri o gadetiaid o East Lancashire Wing o fudiad Cadetiaid yr Awyr golli eu bywydau. Bydd Gwasanaeth Coffa ger y gofeb ar Awst 11eg.
Bydd angen sicrhau bod cyflwr y Gofeb yn dderbyniol erbyn hynny a dywedodd BD y byddai'n ystyried cadw lle yn y Mães Parcio ar gyfer ceir neu fws y teuluoedd a ddisgwylir.
*8. Grwp datblygu Llanberis - Goleuadau Nadolig Llanberis:*
Wedi deall beth oedd y prisiau penderfynwyd cyfrannu £2,000 tuag atynt. Cynnig ac eilio: Barry Davies/Gwilym Evans.

**6 CYNLLUNIO:**
1. Cyngor Gwynedd:
• C13/0459/15/CC - gwaith i goed wedi eu diogelu o dan orchymyn gwarchod coed - Gwesty The Heights, 74 Stryd Fawr, Llanberis - dim sylw.
• C13/0598/15/LL - gosod tanc carthbwll - Eglwys Sant Padarn, Lôn yr Eglwys, Llanberis - dim sylw.

**7 MATERION ARIANNOL:**
a) Yn y Banc ar yr 28ain o Fai 2013 -
Cyfrif Cyfredol: £18,384.55 Cyfrif Cadw: £5,330.91
b) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:
202024 Richard Jones [Gofal Cysgodfannau - Mai] 80.00
202025 Evan Thomas [Cae UEFA - Mehefin]40.00
202026 Brian Owen [Hel Defaid Mai/Mehefin]250.00
202027 D Wyn Lewis [T Gwair Mai -Myn, Parc Bach]185.00
202028 Jacky McMahon [Garddio]100.00
202029 Gwyn Thomas [Gwaith Cynnal a Chadw]237.90
202030 D Wyn Lewis [T Gwair Mehefin - Cae Frondeg]80.00
202032 Grwp Datblygu Llanberis [Goleuadau Nadolig]2,000.00

**CYFANSWM: 2,972.90**

c) Arian a dderbyniwyd rhwng 28/04/2013 a 28/05/2013:

| | | |
|---|---|---|
| 17 Mai | Praesept (1af) | 11,000.00 |
| 17 Mai | Mynwent - | 60.00 |
| 28 Ebr | Llôg | 0.26 |
| 28 Mai | Llôg | 0.25 |

**CYFANSWM: 11,060.51**

**8 Y LLWYBRAU a'r FYNWENT:**
**Y Fynwent:**
Popeth yn iawn.
**Llwybrau:**
Mae disgwyl ymateb y mis yma i'r trafferthion efo Llwybr heibio Pyllau Dŵr a does dim wedi digwydd i Lwybr o Manllwyd a ddifrodwyd y llynedd.
Awgrymwyd gosod mapiau'r llwybrau ar y wal yn Y Ganolfan.
Cysgodfannau Bws:
Adroddwyd iddynt gael eu paentio, ond roedd amryw yn anhapus gyda'r lliw. Penderfynwyd eu gadael ond dewis lliw mwy addas y tro nesaf. Cynnig ac eilio: Trystan Thomas/Gwenda Roberts

**9 ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL LLE BU CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR**
Cafwyd adroddiad gan TT am y Ras Beics a daw i Lanberis ar y 18fed o Fedi am 3.45yp. Disgwylir 10,000 o bobl. Fydd dim parcio ar y Stryd Fawr ond bydd parcio yn Glyn Rhonwy a bysiau i gario ymwelwyr. Bydd arbrawf o hyn yn Ras yr Wyddfa. Bydd y Ffordd Osgoi ar gau trwy;r dydd.

# O'r Cynghorau

## Cyngor Llanddeiniolen

**Mudiadau gwirfoddol**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol erbyn y 30ain o Fedi gan gynnwys mantolen ariannol y mudiad i John B Jones, Clerc, Ceris, Deiniolen. LL55 3LU.

Ni ystyrir unrhyw gais ar ôl y dyddiad yma.

### Crynodeb o cyfarfod Gorffennaf

**Gweddi.** Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Canon Idris Thomas.

**Mapiau llwybrau/hanes.** Croesawyd Gareth Roberts o "Delweddau Gareth Roberts" a "Menter Fachwen" i'r cyfarfod.

Dywedodd Gareth:

Ffurfiwyd y mapiau newydd trwy dechnoleg gwahanol i'r map gwreiddiol ac felly mae llawer o fanylion pellach wrth gefn y mapiau ar y cyfrifiadur.

Mae llawer o deithiau wedi eu trefnu'n barod â disgyblion ysgol Brynrefail am wythnos gyfan.

Penderfynwyd:

- Fframio mapiau i'r chwe ysgol fel o'r blaen ac awgrymodd Carolyn Roberts ychwanegu ysgol Cwm y Glo, ysgol leol plant Brynrefail.
- Gan bod CADW wedi cyfrannu at eu cynhyrchu, gofyn a fuasent yn fodlon gosod copiau ar eu stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol (gwirfoddololdd Phyllis Ellis eu cludo yno).

Diolchodd y Cadeirydd i Gareth am ei waith anhygoel a'i gydweithrediad, ni fuasai cynhyrchiad o'r fath yn bosibl hebddo. Wrth ymateb cyfeiriodd Gareth at syniad y Cynghorwyr yn lle cyntaf.

**Baw cŵn.** Gofynnwyd i'r aelodau wneud rhestr o leoliadau i osod biniau baw cŵn erbyn y cyfarfod nesaf.

**Prosiectau.** Cyfeiriwyd at y gwaith a wnaed eisoes ac sydd ar y gweill ym Methel. Awgrymodd Rhian Evans i'r Cyngor ffurfio polisi ar gyfer prosiectau ar draws y gymuned gyfan.

Golau ychwanegol ger Pen-rhos, Bethel, cyflwynodd Sion Jones bris Gwynedd o £740 am un lamp, trafodwyd hyn yn eang a phenderfynwyd talu am y gosodiad.

Pwysleisiwyd bod Bethel wedi cael yn hael o gronfa'r Cyngor ac y dylid ystyried lleoliadau eraill o hyn ymlaen.

**Mynedfa Brynrefail o'r A4244.** Angen symud ffens y cae chwarae yn ôl a thorri tyfiant er mwyn gwella'r gwelededd wrth ymuno â'r briffordd.

**Penisa'rwaun.** Cyflwynwyd ateb Mr Dafydd Wyn Williams, Adran Ffyrdd Gwynedd i awgrymiadau Mrs Kate Williams ar gyfer diogelu trafnidiaeth trwy'r pentref. Cyfeiriwyd at gais y Cyngor am arwyddion 20mya heibio i'r ysgol.

### Llwybrau

**Categoriau.** Cyfeiriodd Hefin Williams eto at y posibilrwydd o lwybr yn newid ei gategori o un gymuned i'r llall gan ofyn i'r aelodau gael golwg ar hyn dros yr haf ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Gofynnwyd sut cafodd y llwybrau eu categoreiddio yn y lle cyntaf ac awgrymwyd gwahodd Gerallt Jones o Gyngor Gwynedd i gyfarfod y Cyngor i egluro. Dywedwyd nad yw'r llwybrau wedi eu harwyddo yn ddigon da, oes modd cael saethau i ddangos eu cyfeiriad er mwyn osgoi crwydro ar hyd caeau?

**Llwybrau 36, 37 a 34 - Gorlan, Deiniolen** i Ben-inclein, Dywedodd Idris Thomas bod cyflwr y llwybrau yma yn beryglus – angen eu hail-wynebu – cŵyn eto i Wynedd.

**Llwybr o Rhos Wian,** heibio'r Eglwys at Lôn Waun, Penisa'rwaun. Dywedodd Phyllis Ellis nad yw'r llwybr yma wedi ei gofrestru gan Wynedd a bod Aled Green yn paratoi'r ugain enw sydd eu hangen ar gyfer cyflwyniad i Gyngor Gwynedd. Mae'n ymddangos fel "llwybr" ar y map O.S. ond heb rif.

**Llwybr rhif 1, Lôn Plas, Rhiwlas,** dywedodd Hefin Williams bod y llwybr yma yn dal ar gau – llythyr i Wynedd

### Cynllunio

Cyfeiriwyd at y gwrthwynebiad i godi tai dros y ffordd Dai Fictoria, Deiniolen. Cyflwynodd Elfed Williams, fel Cynghorydd, a Nicole Booth ar ran y cymdogion adroddiad i'r pwyllgor cynllunio. Roedd cynrychiolaeth o'r gymuned hefyd yn bresennol.

**Capel, Dinorwig.** Dywedodd Idris Thomas bod gwrthwynebiadau lu gan y cymdogion, penderfynwyd cefnogi'r gwrthwynebiad erbyn cyfarfod cynllunio Gwynedd ar yr 8ed o Orffennaf.

**Ceisiadau a dderbyniwyd:**

Rhiwgoch, Clwt y Bont – datblygiad o 17 o dai newydd;

Sŵyn Eryri, Bethel – codi estyniad dau lawr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf 3ydd o Fedi

**TROEDIO LLWYBRAU LLANDDEINIOLEN**

Cyflwynir yr ail fap hanes/llwybrau yn y
CABAN BRYNREFAIL
nos Iau, y 5ed o FEDI AM 07.00

*Croeso cynnes i bawb.*

*Dechreuir gyda phaned, cacen a sgwrs.*

**Am gymorth:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271








*Magi*

**Llongyfarchiadau** i Magi Tudur a Lois Eifion am eu llwyddiant Eisteddfodol. Magi ar ennill y wobr 1af yng nghystadleuaeth Monolog i rai 12-16 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2013 ac am ei rhan fel Branwen gydag Ysgol Glanaethwy yn y Cyflwyniad ar Lafar a Chân, ac i Lois am arwain Seindorf Arian Deiniolen a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Bandiau Pres Dosbarth 1.

**Yn yr Eco** Cofiwch e-bostio neu roi nodyn drwy'r post os oes gennych unrhyw hanes ar gyfer y Eco. Mae'r dyddiad cau ar gyfer derbyn eich newyddion ar dudalen 2 yr Eco. ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Gwellhad Buan** Dymunwn wellhad buan i Ann Ifans, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, sydd wedi cael pen-glin newydd dros yr haf - rhyfedd ydy eich gweld ar eich baglau yn hytrach na'n rhuthro o un lle i'r llall.

Rydym yn anfon ein cofion hefyd at Mrs Nani Evans, 26 Bryn Tirion, ar ôl iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain yn ei chartref.

Yr un modd mae'n dymuniadau gorau yn mynd i Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, fu'n cael gofal yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

**Llwyddiant** Llongyfarchiadau i Elin Thomas ar ei llwyddiant yn ei arholiad Gradd 1 Piano. Mi gafodd 131 o farciau gyda chlod ac anrhydedd. Mae Elin yn cael gwersi gan Lois Eifion ac yn paratoi at y radd nesa yn barod!

**Llongyfarchiadau** calonnog hefyd i bawb o'r gymuned fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau TGAU a Lefel A eleni - da iawn chi a phob lwc yn y dyfodol.

**Ysgol Sul Bosra** Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau fore Sul Medi 8ed am 10.00yb. Croeso cynnes iawn i aelodau newydd.

Diolch Dymuna Liz, 17 Bryn Tirion, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati wrth ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Gorffennaf.

Hoffai Anti Gwenda ddiolch yn fawr iawn i staff Ysgol Gymuned Penisarwaun, y disgyblion a'u rhieni, am eu geiriau caredig a'r anrhegion a dderbyniodd wrth ymddeol yr haf yma. Mae'n diolch hefyd i drigolion y pentre a'i ffrindiau wnaeth ddymuno'n dda iddi.

Dymuna Ann Ifans, Sycharth, ddiolch yn ddiffuant i Dafydd a'r teulu, cymdogion Bryn Eglwys a Llys y Gwynt, trigolion y pentref a ffrindiau lu am y cardiau niferus, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion wedi triniaeth i'w phen-glin yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir diolch i staff di-flino Ward Enlli ac yn arbennig i ti, Nia, Penpwllcoch, am dy ofal annwyl.

Mae Magi Tudur, Gwernhelen, yn ddiolchgar iawn hefyd i bawb am eu rhoddion a'r negeseuon caredig ar ôl ei llwyddiant yn Eisteddfod Dinbych.

**Llongyfarchiadau mawr** i Ceri Roberts, 18 Bryn Tirion a'i chariad selog, Gareth, o Fethesda ar eu dyweddiad bythefnos yn ôl.

**Profedigaeth** Syfrdanwyd y pentref gydag ymadawiad hynod o sydyn un o gymeriadau'r pentref, sef Mr Danny Webb, 22 Bryn Tirion. Bu farw'n dawel yn ei gartref dydd Mercher, Gorffennaf 17eg. Anfonwn ein cydymdeimlad tuag at Tony, Angela, Tracey a'r teulu oll yn eu colled.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd gyda Janet a Dave Ash ar ôl iddynt golli mam a mam-yng-nghyfraith, Mrs Fitch, "Commercial Cottage" yn ddiweddar.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned Clwb Cant.**

Mis Gorffennaf: 1. Nia Oliver, Gors, Brynrefail; 2. Huw B. Davies, Tyddyn Hendre.

Mis Awst: 1. Mair Foulkes, Bryn Hyfryd; 2. Wendy Philips, Tai Arthur.

Edrychir ymlaen i gynnal gweithgareddau pellach er budd y gost o redeg y Neuadd.

**Cronfa Pensiynwyr**

**Pel Bonws Loteri** - enillydd Mis Mehefin oedd Mrs Janet Ash gyda rhif 4. Llongyfarchiadau!

**YSGOL GYMUNED**

**Mabolgampau** Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ysgol bnawn dydd Iau, Gorffennaf 11eg. Cafwyd tywydd bendigedig gyda phawb yn mwynhau eu hunain. Roedd y plant wedi eu rhannu i 4 gwlad a bu cystadlu brwd ar draws ystod o weithgareddau. Y tîm a ddaeth yn fuddugol oedd Tseina. Diolch i bawb a ddaeth draw i gefnogi'r plant ac i Gil am ei barodrwydd yn trefnu'r sustem sain ar ein cyfer.

**Dymunwn** y gorau i Miss Donna Jones sydd wedi bod yma yn gweithio fel Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen am flwyddyn. Mae wedi penderfynu dilyn cwrs Gradd Dysgu yn y Brifysgol ym Mangor. Pob Lwc i'r dyfodol Miss Donna.

**Gwobr Goffa Y Prifardd Selwyn Griffith** Cyflwynwyd y wobr yma eleni am y gwaith gorau yn y Gymraeg i Twm Herd. Dymunwn ddiolch o galon i Mrs Myra Griffith am ei charedigrwydd.

Tripiau Ysgol Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â Gelli Gyffwrdd ar 8 Gorffennaf. Cafodd pawb amser arbennig ac roedd y tywydd yn garedig dros ben! Cafodd plant Bl. 3-6 ddiwrnod arbennig yn adeiladu rafftiau a chanŵio yng Nghanolfan Conwy. Pawb wedi mwynhau ac yn socian erbyn diwedd y prynhawn!

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

**Eisteddfod Bentref 2013**

Bu'n Eisteddfod lwyddiannus eto eleni gyda chystadlu brwd ac o safon uchel yn yr oedran cynradd, uwchradd ac oedolion. Llongyferchir y cystadleuwyr i gyd a diolchir i staff yr Ysgol, Marina, John Eifion, Ann a'r rhieni am eu cydweithrediad arferol wrth baratoi. Bu'r Côr Cymysg yn glo teilwng iawn i'r Eisteddfod gyda'r datganiad pedwar llais soniarus o "Dros Gymru'n Gwlad".

Rydym yn ymfalchio yn llwyddiant ein Prif Lenorion: Catrin Elen yn ennill Tarian yr Oedran Cynradd, a Magi Tudur yn cipio eleni eto Gwpan y Prif Lenor Uwchradd. Gwelir Cerdd fuddugol Catrin Elen "Y Teigr" yn yr Eco. Prawf o lwyddiant Eisteddfodau bach yw eu gallu i feithrin talent a gweld Lois a Magi, cyn ddisgyblion yr Ysgol Gymuned ac Ysgol Sul Bosra, yn cipio gwobrau cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych.

Fe gawsom sgwrs hamddenol braf gan Erin Eifion, Llywydd y noson, yn olrhain ei phrofiadau hithau yn yr Eisteddfod Bentref, a diolch iddi am ei rhodd haelionus.

Dymunir diolch i'r beirniaid i gyd am eu gwaith caled ac am eu hanogaeth i'r bobl ifanc, a diolch hefyd i'r Arweinyddion ac Aelodau'r Pwyllgor.

Edrychir ymlaen at Eisteddfod 2014 ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r Pwyllgor i helpu trefnu'r digwyddiad. Cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd, Ann Ifans, Sycharth, os ydych am fod yn rhan o'r tîm.

**Plygu'r Eco** Penisarwaun sydd yn gyfrifol am blygu'r Eco y mis yma. Pawb i ddod i Neuadd Eglwys Santes Helen nos Iau, Medi 26ain. Taer erfynnir am wirfoddolwyr newydd i helpu gyda'r plygu. Rhyw awr neu ddwy mae'n olygu ac mae'n gyfle i gymdeithasu a chefnogi'r Eco. Dowch draw ar y noson!



*Anti Gwenda yn ymddeol*

**Ymddeol** Daeth diwedd cyfnod i aelod o'r staff, sef Anti Gwenda, sydd wedi penderfynu ymddeol ar ôl cyfnod hir o 28 o flynyddoedd fel Glanhawraig a Gofalwr yn yr ysgol yma ac Ysgol Tan y Coed cyn hynny. Cyflwynwyd tysteb iddi gan y Plant a'r Rhieni i ddangos eu gwerthfawrogiad. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i chwi, Anti Gwenda, a mwynhewch eich hun yn crwydro!!




**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
**8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE**
***01286-672076***
***neu***
**70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR**
***01248- 372948***
alunffred.jones@cymru.gov.uk


## Y Teigr

Mae yna deigr
Mae yna deigr
Mae yna deigr yn cysgu yn braf
Mae yn ddiog ac yn dew
Mae yna deigr yn cysgu yn braf

Mae yna byffalos
Mae yna byffalos yn taranu
Heibio'r teigr
Ond mae'r teigr dal i gysgu yn braf
Oherwydd bod o yn ddiog ac yn dew

Mae yna fellt
Mae yna dranau
Felly mae yna storm
Ond mae'r teigr dal i gysgu yn braf
Oherwydd mae yn ddiog ac yn dew

Mae yna Land rover
Mae yna Land rover yn refio
Heibio'r teigr
Ond mae'r teigr dal i gysgu'n braf
Oherwydd mae yn ddiog ac yn dew

Mae yna helwyr yn dod
Mae yna helwyr yn dod efo'i gynnau
Dydi'r teigr ddim yn cysgu
Dydi o ddim yn ddiog bellach
Ond mae dal i fod yn dew
Ac yn gallu rhedeg yn gyflymach na'r helwyr

gan Catrin Elen




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
**8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE**
***01286-672076***
***neu***
**70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR**
***01248- 372948***
williamshy@parliament.uk



*Plant blwyddyn 1 yn derbyn eu 'Pasport Kerbcraft'.*

Bu tymor yr haf yn Ysgol Gynradd Llanrug yn dymor prysur iawn gyda llu o dripiau ac ymweliadau addysgol yn cael eu cynnal. Mae'n arferiad gennym ers blynyddoedd bellach i roi cyfle i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i ymweld â Chaerdydd. Eleni, treuliwyd tridiau yn y brifddinas gyda'r plant yn aros yng ngwesty Ibis ac yn cael llu o brofiadau a llawer o hwyl. Cawsant daith danddaearol yn amgueddfa lofaol 'Big Pit'. Aethpwyd ar ymweliad difyr â Sain Ffagan. Roedd pawb wrth eu bodd yn ymweld ag arddangosfa 'Doctor Who' a dilynwyd yr ymweliad yma gyda thaith gerdded o amgylch Bae Caerdydd. Yn ystod y daith cafodd y plant gyfle i weld adeilad y Cynulliad a Chanolfan y Mileniwm ymysg pethau eraill. Cafodd pawb amser da hefyd yn nofio ac yn gwylio ffilm yn y sinema. Bu'n daith fythgofiadwy i'r holl ddisgyblion.

Rhyd-ddu oedd canolbwynt ymweliad blwyddyn 4 gyda phob un o'r disgyblion yn cael cyfle i aros noson yng nghanolfan awyr agored Rhyd-ddu. Cafwyd tywydd bendigedig a'r plant yn mwynhau ymweliad â Beddgelert a theithiau cerdded o amgylch yr ardal. Cafodd y plant yr anrhydedd o fod y cyntaf i deithio ar lwybr Gwyrfai sydd yn uno Rhyd-ddu a Beddgelert drwy goedwig Beddgelert.

Aeth disgyblion blwyddyn 3 i bentref Celtaidd Felin Uchaf yn Rhoshirwaun. Buont yn chwilio am arteffactau, adeiladu wal ac yn mwynhau stori yn y tŷ crwn. Roedd yn ddiwrnod hyfryd a cafodd y plant fwynhau hufen iâ yn Ninas Dinlle ar y ffordd adref.

Aeth disgyblion blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â 'Greenacres' yn Ewloe. Cafwyd diwrnod gwych yn gweld yr anifeiliaid amrywiol, yn teimlo a bwydo rhai ohonynt, yn cael reid tu ôl i'r tractor o amgylch y caeau ac yn mwynhau yn y parc chwarae a'r ffair. Trip gwerth chweil unwaith eto.

Trên bach y llyn yn Llanberis oedd atynfa y dosbarthiadau derbyn a meithrin. Yn dilyn eu taith ar y trên roedd y plant wrth eu bodd pan gawsant fynd i chwarae yn y Den.

Yn ôl yn yr ysgol cynhaliwyd noson anwytho ar gyfer rhieni'r disgyblion a fydd yn mynychu'r dosbarthiadau meithrin a derbyn ym mis Medi. Dyma noson bwysig yng nghalendr yr ysgol ac yn gyfle i'r rhieni gasglu llawer o wybodaeth am fywyd yr ysgol. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y noson.

Cafodd holl blant y cyfnod sylfaen gyfle i dreulio bore yn y dosbarthiadau y byddant yn eu mynychu ym mis Medi. Profiad buddiol i bob un ohonynt a chyfle i ddarpar ddisgyblion y dosbarth derbyn gael cinio yn yr ysgol am y tro cyntaf. Ym mhegwn arall yr ysgol, cafodd disgyblion blwyddyn 6 gyfle i dreulio diwrnod yn ymweld ag ysgol uwchradd Brynrefail a diwrnod arall yn ymgymryd â gweithgareddau chwaraeon yn yr ysgol uwchradd. Roedd yr ymweliadau yma hefyd yn ddyddiau pwysig i'r disgyblion ac yn gam tuag at sicrhau eu bod yn ymgartrefu yn dda yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi.

Yn dilyn ymweliad blaenorol â sioe 'Gwyn' gan Gwmni Theatr y Frân Wen cynhaliwyd dau weithdy yn yr ysgol. Daeth Manon Williams i'r ysgol i gynnal gweithdy drama yn seiliedig ar y thema 'Teimladau' gyda'r dosbarthiadau meithrin a derbyn. Daeth Angharad Tomos i'r ysgol i gynnal gweithdy ysgrifennu gyda disgyblion blwyddyn 1 a 2. Bu'r awdures yn dangos ac yn egluro wrth y plant sut yr oedd hi yn mynd ati i greu cymeriadau ac i ysgrifennu straeon difyr amdanynt. Roedd yn brofiad gwerthfawr i'r plant ac roeddent i gyd yn awyddus iawn i fynd ati i greu cymeriadau a straeon eu hunain. Efallai y gwelwn un yn awdur neu awdures yn y dyfodol – pwy a ŵyr!

Yn ystod y flwyddyn bu disgyblion blwyddyn 1 yn cymeryd rhan yng nghynllun Kerbcraft. Bwriad y cynllun yw dysgu'r plant am ddiogelwch ar y ffordd. Maent bellach wedi cwblhau'r cynllun a derbyniodd y plant eu 'Pasport Kerbcraft' mewn gwasanaeth arbennig. Roedd pawb wrth eu bodd pan ddaeth Carys Ofalus i'r gwasanaeth i'w gweld.

Cafwyd tywydd gwych ar gyfer diwrnod mabolgampau'r ysgol eleni. Cafodd holl ddisgyblion yr ysgol gyfle i gystadlu mewn dwy ras redeg ar gae'r ysgol – un ras fer ac un ras hir o amgylch y cae. Bu'n ddiwrnod gwerth chweil gyda'r rhieni'n cael dod i wylio



*Plant blwyddyn 4 yn cerdded ar lwybr Gwyrfai ym Meddgelert.*



*Mrs Einir Owen a Mrs Lyn Brown yn derbyn blodau gan Mr Robin Williams.*



*Plant blwyddyn 3 yn adeiladu wal ym Melin Uchaf.*



*Plant blwyddyn 1 a 2 yn bwydo'r anifeiliaid yn 'Greenacres'.*

a'r plant yn mwynhau. Yn ogystal â hyn, cafodd y disgyblion hefyd gyfle i fwynhau rasys a chystadlaethau amrywiol eraill yn ystod wythnosau olaf y tymor – cystadlaethau fel rasys wy ar lwy a thaflu pêl. Roedd pawb yn gwneud eu gorau ac yn cael llawer o hwyl.

Bu llawer o blant yr ysgol yn brysur yn cymeryd rhan yng ngweithgareddau mabolgampau'r Urdd hefyd. Cafodd nifer o ddisgyblion lwyddiant ym mabolgampau cylch Eryri yn Ysgol Syr Huw Owen gan fynd ymlaen i fabolgampau rhanbarth Eryri yn Nhreborth. Llongyfarchiadau mawr i Anya Williams, blwyddyn 5, am ddod yn gyntaf yn y ras redeg i ferched blwyddyn 5 a 6 yno gan fynd yn ei blaen i fabolgampau talaith y gogledd ym Mharc Eirias, Bae Colwyn. Llongyfarchiadau a diolch hefyd i bob disgybl a gymerodd ran yn y mabolgampau.

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 lawer o gyfleoedd pellach i gymerydrhanmewngweithgareddauchwaraeonagweithgareddau awyr agored dros wythnosau olaf y tymor. Cawsant gyfle i fowlio yng Nghaernarfon. Aeth disgyblion blwyddyn 5 i ganŵio ar Lyn Padarn a cherdded at y barics yn Llanberis ac aeth disgyblion blwyddyn 6 i hwylio ym Mhlas Menai.

Gyda dyfodiad diwedd tymor yr haf, daeth yn amser ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6. Cafwyd gwasanaeth ffarwelio gwych gyda'r disgyblion yn olrhain eu cyfnod yn yr ysgol ac yn sôn am eu hatgofion a'u profiadau amrywiol. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt ar drothwy eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd a diolchwn iddynt am eu hymroddiad i Ysgol Gynradd Llanrug dros y blynyddoedd diwethaf. Ar ddiwedd y tymor hefyd roeddem yn ffarwelio â dwy aelod o staff yr ysgol – Mrs Einir Owen a Mrs Lyn Brown. Bu Mrs Owen yn aelod gwerthfawr o staff yr ysgol ers bron i chwe mlynedd bellach a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Crud-y-werin, Aberdaron. Bu Mrs Lyn Brown yn gweithio yn yr ysgol am rai misoedd fel athrawes ddosbarth blwyddyn 3. Dymunwn yn dda iddi hithau hefyd a diolchwn iddynt ill dwy am eu gwaith a'u hymroddiad yn ystod eu cyfnod acw.




*Plant blwyddyn 5 a 6 yng Nghaerdydd.*


# H.E. HUGHES
## A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



*Ieuenctid o wahanol rannau o'r byd yn cael croeso yn Capel Y Rhos*

**Bore Coffi** Hoffai Mair ddiolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi yn Hafan ddechrau Gorffennaf. Gwnaed elw o £150 at waith y bobl ifanc yng nghynllun EFE sydd dan Mr. Andrew Settatree. Braf oedd cael pobl yn galw i fewn am sgwrs a phaned.

**Canlyniadau Arholiad** Pan ddaw yr Eco o'r wasg bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc y pentre wedi derbyn canlyniadau eu arholiadau ac yn barod i symud ymlaen. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd ar eich llwyddiant a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Eisteddfod Genedlaethol** Fe gafodd sawl un lwyddiannau ardderchog yn yr Eisteddfod yn Ninbych. Llongyfarchiadau i chwithau hefyd. Braf ydi rhoi Llanrug ar y map!

**Diolchiadau** Dymuna Eirwen Rowlands, Llys Forgan, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon am yr holl gyfarchion ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Derbyniodd nifer fawr o gardiau, talebau, blodau ac anrhegion a'r swm o £200 a roddwyd i Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Hefyd fe ddymuna Rhiannon, Ken a'r teulu, 24 Nant y Glyn, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth sydyn Mrs Elizabeth Griffiths, Llanberis, mam, nain, mam yng nghyfraith a chwaer annwyl iawn. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael tuag ar Feddygfa Llanberis. Diolch yn fawr iawn.

**Brysiwch Wella** Da yw deall fod y canlynol yn gwella yn dilyn salwch a llawdriniaethau. Gwilym Williams, Bron Eifion; Dafydd Arfon Jones, Stad Minffordd, a Dafydd Owen, Bryn Moelyn. Cofion atoch i gyd.

### Capel y Rhos, Oedfaon mis Medi:

Medi 1 - Oedfa Gymun gyda'r Parch. Marcus Wyn Robinson
Medi 8 - Dr. Eryl Davies
Medi 15 - Y gweinidog, Y Parch.Marcus W. Robinson
Medi 22 - Mrs. Susan Williams
Medi 29 - Parch. W.R. Williams

**Profedigaethau** Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Mr a Mrs Dafydd a Lilian Roberts, Stad Glanffynnon, yn eu profedigaeth lem a disymwth yn colli eu mab annwyl, Gwyn Hefin, yn 58 mlwydd oed. Roedd yn byw gyda'i deulu yn Stonehouse, Swydd Lanark, Yr Alban. Colled drist iawn i chi fel teulu.

Bu farw Mr William Roberts, Glyn Ffynnon, Ffordd Llanberis, yn dilyn gwaeledd cas. Daeth ei ferch a'r teulu i fyw ato yn dilyn marwolaeth ei wraig, Bet, a chafodd ofal campus ganddynt. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yma ac yn Llanberis.

Cydymdeimlwn yn arw â Mrs Eirwen Rowlands, Llys Forgan, yn ei phrofedigaeth hithau yn colli ei chwaer yn Sir Fôn.

### Plaid Cymru
### Clwb Cant
### Enillwyr Mis Gorffennaf

1.Sion Humphreys, Tanycoed
2.Berwyn Jones, Glanffynnon

### Enillwyr Mis Awst

1.Meirwen Lloyd, Bryn Moelyn
2.Carys Jones Penisarwaen

**Llongyfarchiadau** i Llŷr Roberts, Bedw Gwynion, ar ei benodi'n Uwch Ddarlithydd Busnes a Marchnata gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y De Ddwyrain. Bydd yn arwain modiwlau Marchnata ac Ymchwil ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n edrych ymlaen at groesawu myfyrwyr o ardal Eco'r Wyddfa i astudio Busnes trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Merched y wawr** Bydd y gangen yn ail gyfarfod nos Fawrth, Medi 10fed am 7.30yh yn y Sefydliad Coffa.

Edrychir ymlaen am orig ddifyr a hwyliog yng nghwmni'r amryddawn Mari Gwilym.

Croeso cynnes i aelodau newydd ac i Ddysgwyr y Gymraeg.

### Sefydliad Coffa
### Clwb Cant
### Enillwyr Mis Mehefin

1.Mrs M Roberts, Tai Minffordd
2.H M Parry, Wenllys
3.Mrs M Parry, Wenllys

### Enillwyr Mis Gorffennaf

1.Mrs C Griffith, Tan y Fron
2.Mrs M Jones, 9 Afon Rhos
3.Dawn Jones, 2 Talybont

**ARVONIA**

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



**Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA**
Ffôn: **01286-675175** • Ffacs: **01286-671126**
E-bost: **info@arvonia.co.uk** • Gwefan: **www.arvonia.co.uk**

**Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**

**Am gymorth:**
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â Mantell Gwynedd**

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

**Bedydd** Yn ystod gwasanaeth dydd Sul, Awst 4, yn Eglwys Sant Mihangel Llanrug, gyda'i chwaer fawr, Ena, yn gwylio bedyddiwyd Nan Grug, merch fach Cerys a Dewi Roberts, Nant y Mynydd.

**Dathlu Pen-blwydd** Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion cynnes at dair o'r pentref fu'n dathlu eu pen-blwyddi yn y nawdegau yn ystod y mis.

Mrs Alice M. Hughes, Mrs Winnie Evans a Mrs Betty Hughes. Hyderwn i chi eich tair fwynhau eich diwrnod arbennig yng nghwmni eich teulu a'ch cyfeillion.

Bu Ilid Bryn, Perthi; Chris Williams, Tal Arfon a Ffion Williams, Stad Tŷ Hen yn dathlu cyrraedd eu un ar hugain oed. Llongyfarchiadau mawr ichi ac ar eich llwyddiannau yn eich gyrfa a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Bu Siôn Tudur, Rhoslwyn, yn dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed ar Awst 24. Rwy'n siŵr i ti gael diwrnod wrth dy fodd, Siôn. Llongyfarchiadau mawr iti ac ar dy lwyddiant yn derbyn Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Rheolaeth Anifeiliaid o Goleg Meirion Dwyfor, Glynllifon. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol yn dy yrfa.

**Ennill Gradd** Dymuna teulu Ffion ei llongyfarch ar ennill gradd ar ddiwedd ei chwrs yn y Brifysgol ym Mangor.

**Llongyfarchiadau** hefyd i bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau pwysig ysgol a choleg y buont yn eu sefyll yn ystod y tymor diwethaf. Dymuniadau gorau i bob un ohonoch wrth ichi gamu ymlaen i'r gris nesaf yn eich gyrfa.

Dymuniadau gorau hefyd i bob un fydd yn cychwyn mewn ysgol, coleg a swydd newydd. Mwynhewch a gwnewch eich gorau.

**Diolch** Dymuna Shona, Bryn Celyn, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr i bawb.

**Priodi** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Andrea a Rowen, Stad Tŷ Hen ar eu priodas yn Las Vegas yn ddiweddar.

**Priodi** Mewn gwasanaeth arbennig yng Ngwesty Meifod priodwyd Gwyn Thomas, Treforfan ac Emma, Llys Eilian. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt ar eu priodas.

Yma yn y Waun y mae'r ddau bâr ifanc wedi cartrefu.

**Beirniadu a Chystadlu** Eleni bu Emrys Lloyd Hughes, Dreflan, yn beirniadu dosbarth Rhan-brid Cymreig, y ceffylau yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd a bu ei ŵyr, Huw Emrys, yn cystadlu gyda'i ferlen fach wen, Magi. Ni ddaeth gwobr eleni ond roedd yn brofiad am y tro cyntaf i Huw.

Daeth llwyddiant i deulu Tanyrallt wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth y moch yn Sioe Môn. Llongyfarchiadau i 'Moch Tanrallt'.

Llongyfarchiadau i barti canu Genod Gwyrfai fu'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth Corau Agored i 20 o Leisiau ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol brynhawn Sul, 4 Awst.

**Adref o'r Ysbyty** Yn ystod yr haf cymerwyd Mr Garry Davies, Hafan; Mr Rol Williams, Ardwyn; Mr Dafydd Parry, 4 Stad Bro Waun i'r ysbyty. Hyderwn eich bod yn gwella bob dydd wedi cael dod adref.

Mae Keith Owen, Stad Tŷ Hen, yn gwella wedi iddo gael triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl.

Mae'n dda deall fod Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni, yn gwella wedi iddi gael ei chymryd i'r ysbyty ac hefyd mae Mrs Doris Roberts yn well wedi iddi syrthio a brifo yn ei chartref.

**Cydymdeimlo** Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at deulu yr Hen Swyddfa Bost yn eu profedigaeth o golli mam Peggy.

Daeth y brofedigaeth o golli mam Gareth i ran teulu Cefn y Waun. Cydymdeimlwn â chi yn eich hiraeth am fam a nain annwyl ichi.

Cydymdeimlwn a theulu Dreflan yn eu profedigaeth o golli mab Penny drwy ddamwain ffordd yn Ffrainc.

Yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun bu farw Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa. Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhian a Bryn a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam annwyl a 'nain ora'r byd'.

**Tarmacio'r Maes Parcio**

Yn dilyn trafodaethau rhwng y Cyng Eurig Wyn a Chyngor Gwynedd mae'r cyngor bellach wedi cytuno i ariannu tarmacio maes parcio'r Ganolfan a'r ffordd fechan gysylltiol.


Auto Express New Car Awards Winner 2012 Best Supermini

Dim ond £169* y mis

Yn cynnwys 3
Blwyddyn o yswiriant
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!
- Rwan ar gael i yrwyr dros 21 oed!



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT **208** NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

PEUGEOT

**MOTION & EMOTION**

**ELIM PEUGEOT**

**Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251**

**www.elimpeugeot.co.uk**

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 taliad misol o £169.00, cost credit a ffioedd £1,277.17 **APR 6.6%**. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol.
Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a CO2 87 - 135

# YSGOL WAUNFAWR

*Bu'n dymor eithriadol o brysur dyma rai o'r digwyddiadau:*

**Taith y Pedwar Copa**

Cymerodd 13 o rieni a chyfeillion yr ysgol ran yn Nhaith y Pedwar Copa er mwyn codi arian i brynu I-Pads i'r ysgol. Mae'r dechnoleg newydd hon yn fodd i godi sgiliau llythrennedd a rhifedd holl blant yr ysgol, o'r Dosbarth Meithrin i flwyddyn 6. I gyrraedd y targed ariannol yma fe drefnodd y Cyfeillion sialens y 4 Copa, sef cerdded 4 o gopaon uchaf Cymru, sef Carnedd Llywelyn, Carnedd Dafydd, Carnedd Ugain a'r Wyddfa mewn diwrnod! Dipyn o sialens.

Llwyddwyd i gasglu £2,400.00 o bunnoedd tuag at yr ymgyrch. Carem ddiolch i bawb, yn rieni a chyfeillion yr ysgol, a gefnogodd y sialens.

**Ffilmio rhaglen ddogfen John Evans/Gruff Rhys**

Bu 13 o blant blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn rhaglen ddogfen am John Evans, yr anturiaethwr o Waunfawr a ddilynodd ôl troed Madog i'r America, ddechrau mis Mehefin. Mae'r canwr enwog, Gruff Rhys Jones o Super Furry Animals, wedi bod yn ffilmio yn America ac eisiau gorffen y rhaglen yma yn Waunfawr. Roedd wedi cyfansoddi cân ar gyfer yr achlysur a bydd band pres yn ymuno gyda'r plant ar gyfer yr orymdaith i Gefn Du a'r ffilmio. Cafwyd diwrnod arbennig o dda.

**Twrnamaint tenis** Llongyfarchiadau i dîm tenis genethod blwyddyn 6 a ddaeth yn ail yn nhwrnamaint tenis Ysgolion Arfon ddechrau mis Mehefin a thîm hogiau blwyddyn 3 a ddaeth yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

**Noson Rhostio Mochyn** Cynhaliwyd Noson Rhostio Mochyn yn yr Antur nos Wener, y 21ain o Fehefin. Gwnaed elw o £800. Diolch i aelodau'r Cyfeillion am drefnu'r noson rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ddiflino drwy'r flwyddyn. Diolch hefyd i'r holl rieni a gefnogodd y noson.

**Diwrnod Mabolgampau** Cawsom ddiwrnod digon braf i gynnal Mabolgampau'r ysgol ar Fehefin y 19eg. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda thîm Cwellyn yn ennill am y drydedd flwyddyn yn olynol. Llongyfarchiadau mawr i'r capteiniaid, sef Tomos a Elan o flwyddyn 6.

Dyma restr o enillwyr y marciau uchaf yn eu blwyddyn:

Dosbarth Derbyn: Aled Wyn a Cadi Llwyd

Blwyddyn 1: Robin Williams ac Ellie Gossett

Blwyddyn 2: Tomos Glyn a Catrin Griffith

Blwyddyn 3: Gruff Jones a Sophie Roughley

Blwyddyn 4: Jon Mill a Poppy Burns

Blwyddyn 5: Meilir Parry / Iwan Llwyd / Emily Owen a Tanwen Meadows

Blwyddyn 6: Tomos Owen a Rhona Loxton

Pencampwyr yr ysgol eleni oedd Tomos Owen o flwyddyn 6 a Sophie Roughley o flwyddyn 3. Llongyfarchiadau iddynt i gyd. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn - hoffwn ddiolch i'r plant am gystadlu mor frwd ac am eu hymddygiad rhagorol. Diolch hefyd i'r mamau a fu'n ddiwyd drwy'r dydd yn paratoi paned ac ar y stondinau.

**Tripiau diwedd tymor** Treuliodd y dosbarth meithrin fore ym Mharc Sipsi Caeathro ddydd Mercher, Gorffennaf y 10fed ,tra bu plant y dosbarth derbyn i flwyddyn 4 yn Sŵ Caer ar y 8fed o Orffennaf. Treuliodd blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod yn Crocky Trail ger Caer. Mwynhaodd pawb eu tripiau a rhaid canmol y plant am eu hymddygiad rhagorol.

**Diwrnod o sesiynnau hyfforddiant gan y plismon** Treuliodd y plismon ddiwrnod yn rhoi gwersi ar wahanol agweddau o fod yn ddiogel. Mwynhaodd y disgyblion yn fawr a bydd rhagor o wersi yn y tymor newydd.

**Ymweliad blwyddyn 6 a Brynrefail** Bu blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail ddiwedd Mehefin a chawsant ddiwrnod gwerth chweil. Pawb yn edrych ymlaen rŵan i gychwyn ym mis Medi.

Blwyddyn 6 gwneud plât gyda crochenwaith Llanberis Hoffem ddiolch i fam Rhona, blwyddyn 6, sef Ceri Loxton am gyfrannu £50.00 tuag at weithdy gwneud plât arbennig gyda Chrochendy Tan y Ddraig. Bu Mrs Juliette Bennet yn cynllunio'r platiau gyda'r dosbarth.

**Noson rhieni newydd a phlant meithrin yn ymweld â'r ysgol** Cynhaliwyd noson i rieni'r plant meithrin a fydd yn cychwyn ym mis Medi ar nos Lun, Gorffennaf y 15fed. Braf oedd gweld cymaint o rieni'n bresennol. Treuliodd y plant fore yn yr ysgol a phob un ohonynt yn blant da. Bydd dau o ddisgyblion newydd yn cychwyn yn y dosbarth derbyn hefyd. Edrychwn ymlaen i'w gweld i gyd ym mis Medi.

**Diwrnod Ffarwelio blwyddyn 6** Cynhaliwyd cyfarfod Gwobrwyo Blwyddyn 6 yn y Ganolfan ar ddydd ola'r tymor. Estynnwyd gwahoddiad cynnes iawn i rieni a neiniau a theidiau plant Blwyddyn 6 i ymuno gyda ni ac yna am baned ac ymddangosiad "Photo Story" arbennig yn neuadd yr ysgol. Roedd pawb wedi gwisgo yn eu dillad crand a gwobrwywyd pob plentyn yn unigol am ddawn arbennig. Cyflwynwyd llyfr lloffion a tharian yn rhodd gan yr ysgol. Dymunwyd yn dda iddynt yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.


Caffi Caban
ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos
Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.
Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.
Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)
caban cyf



GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

**Yn yr Ysbyty** Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Nelma Pritchard, Stad Croesywaun, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Newid Aelwyd** Mae rhai teuluoedd wedi symud o'r Waun i fyw ac eraill wedi dod i gartrefu yma. Hefyd bu yma symud aelwyd o fewn y pentref. Dymunwn bob hapusrwydd ichi yn eich cartref newydd.

**Apêl** Cofiwch nodi gwybodaeth am ben-blwydd arbennig neu ddigwyddiad pwysig yr hoffech ei roi yn yr Eco ar bapur a'i roi drwy'r drws imi. Diolch

**Dathliadau pen-blwydd arbennig** Dymuniadau arbennig i ddwy aelod o staff, sef Mrs Sian Williams ac Anti Sharon, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Dymuniadau hefyd am wellhad buan i Anti Luned sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Gwyliau Haf**

Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ddydd Mawrth Medi yr 2il - pawb mewn gwisg ysgol os gwelwch yn dda.

GWYLIAU HAPUS I BAWB, MWYNHEWCH

Diolch unwaith eto am eich cyd-weithrediad.

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Mehefin oedd: £30: Mrs Cadi Jones, Nant; £20: Mrs Pearl Williams, Parc; £10: Mrs Ellen Roberts, Bodrida.

**Eisteddfod y Pentref** Bydd Eisteddfod Pentref Waunfawr yn cael ei chynnal eleni ar ddydd Sadwrn, 12 Hydref, yng Nghanolfan y Pentref. Cynhelir Eisteddfod ar gyfer y plant yn y prynhawn (cychwyn am 12.30) ac i'r oedolion gyda'r nos (cychwyn am 7.00 o'r gloch). Bydd y testunau ar gael o Ysgol Waunfawr neu cysylltwch ag Olwen ar 650371 neu Iola Llew ar 650035. Croeso cynnes i bawb sy'n byw yn y pentref a'r cyffiniau.

**Merched y Wawr** Cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r gangen ar nos Iau, Medi 26, yn y Ganolfan am 7.30. I agor y tymor newydd bydd Mici Plwm yn cynnal noson. Cawn ychydig o'i hunangofiant a hanesion am y teithiau y bu arnynt ar draws y byd. Bydd yn noson hwyliog ac adlonianol. 'Mici Ddrwg o Dwll y Mwg' ydi teitl ei sgwrs.

Mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno â ni ar y pedwerydd dydd Iau o'r mis. Mae gennym raglen amrywiol a diddorol ac ar ddiwedd pob cyfarfod cawn gyfle i gymdeithasu dros baned.

**Diwedd Tymor yr haf** Cafwyd cyfarfod ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol yn y Ganolfan eto eleni a phob un yn cael canmoliaeth am ei ymroddiad i weithgareddau'r ysgol. Dymuna rhieni y disgyblion ddiolch i'r Brifathrawes a'r staff am eu gwaith a'u gofal dros y blynyddoedd. Dymunwyd yn dda i bob un ohonynt yn yr Ysgol Uwchradd ym mis Medi.

**Cerddorol** Llongyfarchiadau i Siôn Gwyn Lewis, 7 Stad Ael y Bryn, am lwyddo yn yr arholiad chwarae Clarinet Gradd 1. Da iawn chi, Siôn, dal ati rŵan cofia.

**Babanod Newydd** Llongyfarchiadau i Cadi a John Gwynedd, Nant, ar enedigaeth wyres fach. Ganwyd Mari Huws i Catrin ac Osian, chwaer i Jaco.

Daeth Menna ac Elfyn, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd, yn daid a nain i Eli, merch fach a anwyd i Nia a Darren, chwaer i Chloe.

Ganwyd mab bach, Cynan, i Ceri a Malcolm, Stad Bro Waun, brawd i Cadi, Cari a Casi, ŵyr bach i Yvonne ac Alan a gor-ŵyr i Gwendoline Rowlands, Stad Bryn Golau.

Mab bach arall a anwyd i Hawys a Pete, Stad Llys y Waun. Bydd Ceiri wedi gwirioni gyda'i frawd bach, Mabon Llŷr.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a phob dymuniad da i'r rhai bach.




## CWM Y GLO

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Alice a Nigel Starkey, Ty'n Gerddi Uchaf, ar enedigaeth mab bach, Zak Neath.

**Arholiadau** Llongyfarchiadau i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau yn y coleg a'r ysgol a phob dymuniad da i'r rhai sydd yn mynd i goleg neu ddechrau mewn swyddi y tymor nesaf.

**Diolch** Dymuna teulu y diweddar Hywel Wyn Williams, Nant Forgan, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch i gymdogion a ffrindiau am yr ymweliadau, galwadau ffôn, y llu cardiau ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon. Rhoddir hefyd arian yn lleol er cof am Hywel i Uned Gofal Calon, Ysbyty Gwynedd, er budd eraill.

Diolch i'r Barchedig Ddr Carol Roberts am y gwasanaeth angladdol, i'r meddygon am eu gofal ac i'r ymgymerwyr, E.W. Pritchard, Llanberis, eu trefniadau trylwyr.

**Marwolaethau**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf daeth profedigaeth i ran tri theulu yn y pentref.

Dydd Iau, 4 Gorffennaf, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Hywel Wyn Williams, Nant Forgan yn 83 mlwydd oed. Ef oedd plentyn ieuengaf William a Jane Williams, symudodd y teulu i Nant Forgan o Clegir pan oedd Hywel yn 7 oed. Wedi gadael yr ysgol bu'n gweithio yn Modurdy Cwm ac yna, tan ei ymddeoliad, yn Ffatri Ferodo, Caernarfon. Er mai dyn ei filltir sgwâr oedd Hywel, adref yn yr ardd neu yn diddanu ei wyrion a'i wyresau, trafaeliodd ef a Margaret ran helaeth o'r byd. Bu'n drysorydd Pwyllgor y Cae Chwarae am flynyddoedd lawer. Bu ei angladd ddydd Gwener, 12 Gorffennaf yn Amlosgfa Bangor, gyda'r Barch Dr Carol Roberts yn gwasanaethu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Margaret, ei blant Leslie a Delyth, ei wyrion a'i wyresau a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Dydd Iau, 1 Awst, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, wedi cystudd byr bu farw Mr Robin Price, 1 Stryd Newydd, yn 83 mlwydd oed. Roedd Robin yn ŵr parod ei gymwynas bob amser a'i brif ddiddordeb oedd peiriannau. Gallai dynnu modur yn ddarnau a'i osod yn ôl at ei gilydd yn berffaith. Os byddai peiriant golchi, glanhawr tŷ ac yn y blaen wedi torri, byddai Robin yn siŵr o'i atgyweirio.

Roedd ei angladd ddydd Iau, 8 Awst, yn Amlosgfa Bangr a rhoddwyd ei lwch ym medd ei nain a'i chwaer, Megan, ym Mynwent Llanddeiniolen. Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i blant, Ann, Steven a Doreen a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u galar.

Dydd Sul, 11 Awst, yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun bu farw Mrs Mair Gwyn Williams (Mair Bwlch), Elidir View, Bwlch, yn 92 mlwydd oed. Mair oedd yr hynaf yn y pentref ac wedi byw gydol ei hoes yn Cwm. Roedd yn bleser o'r mwyaf treulio prynhawn yn Elidir View (neu yn hytrach 'Archifdy Cwm y Glo) yng nghwmni Mair i weld yr holl hen luniau a'r holl newyddion a storiau ac yn y blaen a oedd wedi eu torri allan o bapurau ac wedi eu cadw yn daclus mewn llyfrau lloffion. Bu'n aelod ffyddlon yn Capel Mawr nes ei gau yn niwedd y chwedegau, yn aelod o Ferched y Wawr, Pobl-y-Cwm ac ar bwyllgor y Cae Chwarae. Bydd colled enfawr ar ei hôl.

Bu ei hangladd yng Nghapel y Tabernacl dydd Iau, 15 Awst ac yn dilyn yn Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchg John Pritchard gyda Dr William Munro wrth yr organ. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Gwyn, Blodwen, Meirion ac Eirian, ei wyresau, wyrion, gor-wyresau, gor-wyrion a'r gor-gor-wyrion yn eu profedigaeth a'u colled lem.

# Wythnos weithgareddau EFE.

Cynhaliwyd wythnos o weithgareddau yn Ysgol Gynradd Llanrug ddechrau'r gwyliau, gyda nifer dda o blant oedran cynradd yn mynychu'r sesiynnau. Roedd rhai o bobl ifanc Ysgol Sul Capel y Rhos yno'n cynorthwyo hefyd. Arweinydd y gweithgareddau oedd Andrew Settatree, gyda gwirfoddolwyr lleol yn rhoi cymorth. Yn rhan o'r achlysur hefyd roedd myfyrwyr Cristnogol ifanc o rai o brifysgolion America, a oedd yn aros yng Nghaernarfon ac yn cynorthwyo gyda'r gwaith.



# CÔR MEIBION BANGOR

Mae'r Côr wedi bod yn brysur dros fisoedd yr haf wrth dechrau ar gyfnod newydd dan arweinyddiaeth Lowri Roberts Williams, Brynrefail, a'r cyfeilydd, Gwilym Lewis, Caergybi.

Roedd yn hyfryd cael croesawu nifer o aelodau newydd dros y cyfnod hwn hefyd. Cafwyd nifer o gyngherddau yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno, lle caiff y côr bob amser dderbyniad arbennig iawn, a hefyd yn Eglwys y Drindod Sanctaidd yn yr un dref. Pleser yn ogystal eleni fu rhoi perfformiad yn Eglwys Sant Cybi, Caergybi, fel rhan o groeso i'r dref i ymwelwyr o'r mordeithiau sy'n glanio yn y porthladd ac i ymwelwyr yn Llanberis yng Ngwesty Fictoria. Mae'r côr yn gwerthfawrogi cyfraniad eu hunawdwyr yn y cyngherddau hyn – Gareth Hughes ar yr iwffoniwm a'r bariton, Norman Evans, ynghyd â datganiadau David Hughes ac Aneuryn Jones ym mherfformiadau'r Côr a'r cyflwynwyr Dafydd G. Ellis a Gwyn Hefin Jones. Wedi cynnal cyngerdd ddechrau Medi yn Eglwys y Santes Fair, Betws y Coed, bydd ymarferiadau'r côr yn canolbwyntio ar y rhaglen waith ar gyfer eu taith i'r Iseldiroedd yn ystod mis Hydref. Mae croeso cynnes yn aros i unrhyw un garai ymuno â'r côr ddod draw i Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, ar nosweithiau Mercher am 7.30 o'r gloch neu gysylltu â'r Ysgrifennydd Myfyr Parry ( 01286 676512).

Llawenydd i'r côr, yn dilyn Eisteddfod Dinbych a'r Cyffiniau oedd cael llongyfarch eu cyfeilydd, Gwilym Lewis, ar ei lwyddiant arbennig yn ennill y wobr gyntaf am drefniant o Alaw Gymreig i Gôr Meibion. Cafodd ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniad, Tim Rhys Evans, am y cyfansoddiad a bwriedir cyflwyno'r gwaith pan gyhoeddir ef maes o law i Arweinydd ac aelodau Côr Meibion Dinas Bangor. Bydd hyn yn anrhydedd i'r côr ac edrychir ymlaen at gael ei berfformio. Roedd aelodau'r côr hefyd yn falch o lwyddiant Eleri Owen Edwards, Llanymddyfri, ar ei champ yn ennill Y Rhuban Glas – Gwobr Goffa David Ellis - gan iddi gael gwahoddiad a bod yng nghwmni aelodau'r côr fel unawdydd ar eu taith i Ogledd yr Amerig yn 2007 pryd y derbyniodd glod arbennig am ei pherfformiadau.

# Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Ar nos Fawrth, 17eg Medi am 7.30 o'r gloch cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon a bydd Angharad Price yn traddodi darlith, sy'n cynnwys dangos nifer o luniau, 'T.H. Parry-Williams yn crwydro'r Cyfandir'. Estynnir croeso cynnes i bawb.

# Bugeiliaid y Stryd

Ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei 'nabod, yn arfer mynd am nos Sadwrn allan ym Mangor? Os felly, dyma rif ffôn defnyddiol i'w gadw wrth law: 07580 607032

Erbyn hyn mae Bugeiliaid Stryd Bangor wedi bod yn gwasanaethu ers dwy flynedd a hanner. Bydd tîm o wirfoddolwyr o'r eglwysi a'r capeli yn mynd allan yn hwyr yn y nos yn gofalu am bobl a helpu i wneud y strydoedd yn fwy diogel.

Fel arfer, mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig ar nos Wener, sy'n noson eithaf prysur yn ystod tymor y Brifysgol. Ar ôl trafodaethau gyda'r heddlu ac eraill, rydym wedi penderfynu y byddai'n fwy buddiol mynd allan ar nos Sadwrn dros fisoedd yr haf.

Rôl Bugeiliaid y Stryd yw cynnig gofal a chymorth ymarferol i unrhyw un sydd ei angen a helpu i sicrhau bod pobl sydd allan ar y stryd yn ddiogel. Gan amlaf, mae pobl yn ymddwyn yn dda ac mae naws gyfeillgar ond weithiau bydd pobl yn cynhyrfu ac mae Bugeiliaid y Stryd yn helpu i dawelu pethau a sicrhau nad yw pethau'n mynd dros ben llestri. Rydym hefyd yn helpu pobl i gael tacsi neu fws adref neu'n cerdded adref hefo nhw os mai dyna'u dymuniad.

Mae'r Bugeiliaid wedi derbyn hyfforddiant mewn cymorth cyntaf ac yn ystod y flwyddyn wedi defnyddio eu sgiliau ar sawl achlysur yn ogystal â galw ambiwlans i nifer o ddigwyddiadau mwy difrifol. Mae nifer o bobl wedi achub y cyfle i siarad â'r Bugeiliaid am wahanol bethau sy'n eu poeni; rhan bwysig o'r gwasanaeth yw cynnig clust i wrando.

Mae croeso i unrhyw un weld y gwaith yn uniongyrchol trwy fynd allan gyda ni fel sylwebydd. Cysylltwch â Paul Rowlinson, Cyd-drefnydd, ar y rhif 605365 neu drwy anfon e-bost at bangor@streetpastors.org.uk.

Os oes rhywun allan rhwng 10.00 yr hwyr ar nos Sadwrn a 4.00 y bore ac eisiau cymorth gan Fugeiliaid y Stryd gall ffonio'r rhif 07580 607032.

# BYWYD DIWYLLIANNOL Y FRO

Carwn ddiolch am gydweithrediad unigolion o wahanol bentrefi talgylch yr Eco am eu parodrwydd i gyflwyno manylion am fywyd diwylliannol eu pentref ar gyfer yr archwiliad a gyflwynais yn yr Eco yn ddiweddar.

Yn sicr, rhaid llongyfarch trigolion pentref Bethel am eu dyfalbarhad a'u hawydd amlwg i gael awyrgylch bywiog, tra diwylliannol cyson drwy'r flwyddyn ag sydd, wrth reswm, yn closio pawb at ei gilydd a chreu cymdeithas ganmoladwy sydd, yn fy marn i, yn esiampl clodwiw i weddill y dalgylch.

Ond nid felly y bywyd diwylliannol yn y Waunfawr, er enghraifft, pentref fe gofiaf oedd yn llawn bwrlwm ond heddiw heb na Chlwb yr Henoed na Chymdeithas Lenyddol (siom o gofio fel y bu i'r diweddar D. Idris Jones a minnau gael cynifer â 70 o aelodau un tymor) ond prysuraf i longyfarch rhai o'r gwragedd ifanc am ymdrechu llynedd i ailgychwyn yr Eisteddfod – daliwch ati a phob dymuniad da.

Tybed a wyf yn gofyn gormod, fel cyn-ysgrifennydd y Gymdeithas Lenyddol yn y Waunfawr – wrth ofyn i rai o aelodau cangen leol Merched y Wawr, er enghraifft, i geisio cael y Gymdeithas ar ei thraed y gaeaf nesaf? Byddwn yn barod i roi pob cymorth i chi. Efallai byddai cyfarfodydd unwaith y mis yn y pnawn yn fwy deniadol.

Siŵr gen i fod un neu ddau yn y Waunfawr yn ogystal yn barod i geisio adnewyddu Clwb yr Henoed, fel nad aiff atgofion am wasanaeth clodwiw Idris Jones (eto) a Mrs Miles yn angof.

Yn naturiol, tydw i ddim yn hoffi datgan hyn ond wir mae angen chwistrelliad go dda o ryw hylif nerthol a dylanwadol ar drigolion y Waunfawr y dyddiau hyn, o gofio'r gorffennol canmoladwy. Beth yw y rheswm? A yw y bobol sydd yn symud i mewn i'r Waunfawr bellach yn bobol â dim diddordeb mewn cyd-gymdeithasu, dod yma i fyw am fod y pentref yn hwylus i fynd i'r gwaith yng Nghaernarfon falla?

Efallai i chwi, fel fi, gael dipyn o siom o sylwi ar ddiffyg ymdrechion trigolion Llanrug i gynnal y safon a arferid ei gynnal yn y pentref rai blynyddoedd yn ôl – eto dim Cymdeithas Lenyddol na Chlwb yr Henoed. Rhaid yn wir yw gofyn pam.

Wrth reswm, ymddengys fod Llanberis yn canolbwyntio ar dwristiaeth bellach a'r bywyd diwylliannol yn dioddef o'i gymharu â'r hyn a fu.

Piti garw oedd gweld fod y bywyd diwylliannol Cymreig a gofiwn gynt yn Ninorwig wedi gorffen – a hynny am byth o bosib! Does ond gobeithio na fydd yr un pentref arall yn dilyn tynged dorcalonnus Dinorwig.

I gloi rhaid yw llongyfarch trigolion Dyffryn Nantlle ar eu hymroddiad a'u gweithgarwch hynod amrywiol drwy'r flwyddyn, fel y dengys tudalennau cynhwysfawr y papur lleol, Lleu. Dyma'r math o fywyd diwylliannol a arferid ei gael ym mhentrefi'r Eco flynyddoedd yn ôl, bellach wedi diflannu gan greu siom i 'hen stejars' fel fi.

Rol Williams, Waunfawr

# Un funud fach ...

## HAF BRAF

A ninnau'n dueddol o sôn cymaint am y tywydd, byddai'n drueni peidio â dweud dim am yr haf da a gawsom eleni. Fe dywynnodd yr haul am wythnosau, a hyd yn oed pan gafwyd glaw doedden ni ddim yn ofni y byddai'n dal i fwrw am ddyddiau wedyn. Clywais ambell un hyd yn oed yn cyfaddef i ni gael gwell tywydd yma yng Nghymru nag a gawson nhw ar wyliau tramor mewn ambell i le ecsotig. Roedd Ras yr Wyddfa, yr Eisteddfod Genedlaethol a sawl digwyddiad arall yn sicr ar eu hennill. Ac yn wahanol iawn i'r hafau a gawsom yn ddiweddar, 'Ond ydi hi'n braf?' oedd y cyfarchiad mwyaf cyffredin o ddigon.

Felly, cyn dyfod yr hydref a chwymp y dail a'r nosweithiau cynnar, diolchwn o'r newydd am yr haf ardderchog a gawsom. Wedi cwyno cymaint dros y blynyddoedd am hafau gwlyb ac oer, byddai'n drueni pe byddem yn brin ein diolch am dywydd hyfryd yr wythnosau diwethaf. Ond nid yr haul a'i wres yn unig sydd gennym i ddiolch amdano chwaith, ond popeth da a gawsom yn rhoddion rhagluniaeth Duw bob dydd yr haf hwn, fel y gwanwyn a'r gaeaf a'r hydref o'i flaen dros flwyddyn arall. Ond fel y naw dyn gwahanglwyfus a fethodd â dychwelyd i ddiolch i Iesu Grist am eu hiachau, gallwn ninnau ar brydiau fod yn gyndyn i ddiolch i'r Arglwydd am ei ddaioni a'i roddion, boed wres yr haul neu fwyd y bwrdd neu unrhyw un arall o fendithion hael Duw i ni, yn cynnwys ei rodd fwyaf un, sef ei Fab Iesu yn waredwr pechaduriaid.

Mae Cristnogion yn cydnabod fod eu diolch mor aml yn annigonol o gofio cymaint yw rhoddion y Brenin Mawr. Wrth gyffesu eu diffyg diolch, maent yn ceisio maddeuant Duw. Ond trwy'r cyfan maent yn ymwybodol o'u dibyniaeth arno a'u dyled iddo. Maent yn sylweddoli mai diolch y dylent ei wneud, er pob methiant i wneud hynny. A diolch am gymorth a daioni a chynhaliaeth Duw nid yn unig yng ngwres haul haf ond yn oerni drycin gaeaf. Pwy a ŵyr beth sydd o'n blaenau'r hydref a'r gaeaf hwn? Does ond angen dwyn i gof amrywiaeth syfrdanol tywydd y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sylweddoli nad oes gennym y syniad lleiaf am yr hyn sy'n ein wynebu'r misoedd nesaf hyn. Y peth rhwyddaf oll yw dweud y dylem ddiolch. Realiti pethau yw ein bod yn cael trafferth i wneud hynny, hyd yn oed pan fo pethau o'n plaid. Ond rhan o gyfrinach y bywyd Cristnogol yw bod pobl Dduw, trwy ras ac yn nerth Duw, yn diolch i'w Tad nefol ym mhob sefyllfa am ddaioni'r Arglwydd, mewn dyddiau da a dyddiau drwg fel ei gilydd.

JOHN PRITCHARD

**Wedi darllen llyfr W H Griffith ac Idris Thomas**

Rhaid oedd prynu y gyfrol
"O'r Castell i'r Llys",
ynddi – gwin y gorffennol,
bywyd syml – a'r chwys.

Mae'r llyfr yn llawn atgofion
switch i fidio'r co',
Ail gyfyd hen gyfoedion,
halen daear bro.

Cofio yw sail y cwbwl,
o'r dyddiau gwyn-
cario gwair a'r gwn dwbwl
efo 'Lias Wyn!

Cofio Wil Huw ac Elspeth
a'u croeso gwerth chweil,
cofio i mi sy'n bopeth
o'r 'pethe' a ddeil.

Menter fu ei ail natur,
bachu'r cyfle iawn,
llwyddiant, methiant, un antur…
mewn un bywyd – llawn.

Dwysbigodd cof 'hel celyn'
â'r Dolig yn dod –
gwerthu'r sypiau – bob coesyn…
sant plantos ei nod.

Yntau'r 'Canon' ddaeth adref
a'i ysgrifbin ffraeth,
cofnodi gwreng ei hendref…
do… 'Efe a'i gwnaeth'.

A phan yn gyrru heibio'r
llys ar newydd wedd,
o hyd mae'r 'Castell' yno
a'r Ceffylau gwedd!

*Norman Closs*


ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Pryd i Bawb
Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon

• Priodas •
Cyfarfodydd busnes
• Bedydd/Parti/Te angladd
• Basged Picnic
• Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn
Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502


Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368
Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!



SWIGOD A SEBON
SYCHLANHAU
Altro • Ailwnïo
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088



# Ar ben arall i'r lein





Yn dilyn tri llif Awst, siomedig iawn yw'r 'sgota ar y Seiont. Does gennyf ond gwybodaeth am rhyw ddau ddwsin o sewin, y mwyaf o rhain am 3pwys 8 owns o ardal Pontrug, y genweiriwr medrus oedd Wyn Parry, Caernarfon, mae o hefyd wedi glanio saith arall hyd a ddau bwys. Does dim eog o gwbwl wedi cael ei ddenu at y bach, hyd yn hyn, ond rhaid peidio edrych ar yr ochr dywyll gan mai at ddechrau Medi fydd rhain yn amlygu eu hunain yma - gobeithio.

Ar 12ed Gorffennaf fe gasglodd Fforwm Padarn at ei gilydd yn Amgueddfa Ysbyty'r Chwarel yn y Gilfach Ddu. Yno cafwyd y wybodaeth roeddym yn ei disgwyl, sef fod Dŵr Cymru yn torri ei addewid o adeiladu gwaith carthffos newydd ym Myrnrefail. Mae hyn, wrth gwrs, yn gwneud synnwyr, ond y broblem fawr yw gan fod y gwaith trin i aros yn Llanberis, a dim ateb gan swyddogion y cwmni be oedd i gael ei wneud ar arllwysiadau heb eu trin i'r llyn mae'n debygol y bydd y problemau yn parhau. Un peth positif yn dilyn o'r cyfarfod yw fod y gymdeithas wedi ei gwahodd i gyflwyno adroddiad ar beth, yn ein golwg ni, sy'n angenrheidiol ei wneud i adfer ein dyfroedd. Rwyf wedi paratoi a chyflwyno'r adroddiad at sylw, cawn weld be a ddaw.

Mae'r corff newydd sy'n dilyn Asiantaeth yr Amgylchedd, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, er ei fod wedi penderfynu peidio ag erlyn Dŵr Cymru, wedi cyflwyno rhybudd fod yn rhaid i'r cwmni ddatgan - o fewn tri mis mewn manylder - y camau maent am eu cymryd i ddadwneud y difrod sydd wedi ei wneud drwy eu gweithgareddau.

Felly, fel y dychmygwch, rydym yn disgwyl mewn gobaith am eu bwriad yn ystod Hydref eleni. Yn y cyfamser rydym fel clwb unwaith eto wedi bod yn stocio cywion eog i'r nentydd sy'n bwydo Afon Peris yn Nant a hefyd afonydd Arddu a'r Dwythwch. Diolch o galon i holl berchenogion tir yr ardaloedd yma am eu cydweithrediad a'u diddordeb yn ymdrechion y gymdeithas i godi safon y dyfroedd. Hefyd, yn ystod Awst, mae cwmni 1st Hydro wedi dechrau ail sefydlu gwlâu claddu i'r torgoch ar Afon Hwch islaw Llyn Peris. Dyma'r gwaith cyntaf i fod o gymorth i'r pysgodyn prin yma ers 1978.

Er ein bod yn dal i fethu â rhoi problemau Dyffryn Peris tu cefn inni, mae'n galonogol dros ben medru adrodd fod Afon Gwyrfai yn gwella, ac eleni mae adroddiadau yn dod i law am y nifer o sewin sydd o gwmpas. Yndi, mae rhai blynyddoedd ers i Ddŵr Cymru agor gwaith trin dŵr yfed ym Metws Garmon a thrwy hynny atal tynnu dŵr yn union o'r afon. Hyn oedd yn achosi lefel yr afon fynd i fyny ac i lawr fel yo-yo gyda'r canlyniadau trychinebus i'r eog ar sewin. Mae'n debyg nad yw'r cwmni wedi gwneud hyn oherwydd ewyllys da, y rheswm pam yw fod y Gwyrfai, Cwellyn a thalgylch yr afon yn gyffredinol wedi eu dynodi gan yr undeb Ewropeaidd fel Ardal o Gadwraeth Arbennig, canlyniad dal i weithredu i niweidio'r dynodiad fuasai dirwyon enfawr. Job dda Ewrop! bechod na fuasai Dyffryn Peris yn cael yr un sylw.

Ar y Llyfni mae pethau yn foddhaol dros ben, eto mae nifer y sewin i'w weld yn cynyddu, gyda basged hyfryd at swper i'w gael o'r pyllau sy'n arwain am y môr. Clywais si hefyd fod rhai at 4pwys wedi dod o Lyn Tro, er does dim smic fod neb wedi bachu sgodyn mawr ar Lyn Nantlle. Efallai fod pawb yn cydymdeimlo fod y lanfa wedi diflannu, yn anffodus bu'n rhaid tynnu yr adeiladwaith yma i lawr oherwydd bod llifogydd cyson dros y blynyddoedd wedi ei wneud yn beryglus. Bydd cwch yr anabl yn cael ei symud i Lyn Dywarchen unwaith bydd y ffynonellau ariannol wedi eu darganfod i geisio am grant i adeiladu glanfa a mynedfa newydd i rai mewn cadair olwyn. Diolch i Gyngor Gwynedd a Pharc Eryri am y gwaith dylunio a rhagbaratoi'r cynllun.

Fel y gwyddoch yn iawn rwyf wedi bod y pregethu ers blynyddoedd lawer beth fydd y canlyniadau a ddaw ein ffordd os bydd y llygru parhaus yma i'n dyfroedd a'r amgylchedd yn gyffredinol yn parhau. I'r perwyl yma rhaid i mi dynnu eich sylw at waith Cynan Jones, Nantmor ,yn yr Ymryson y Beirdd yn Steddfod Dinbych eleni. Dyma'r gwaith gorau i mi ei glywed ers amser maith, ac mi symudodd y Meuryn, Tudur Dylan, i roi 10 marc iddo. Ymddiheuriadau i ti, Cynan, os dwi ddim yn hollol gywir:

**Gwesty'r Ddaear**

Di-dor di'r cyfleusterau
ac yfwn heb gofio am gostau.
Ein hepil gaiff y biliau i gyd,
Bydd y bar ar gau.

*Cynan Jones*

Ia dim iws o gwbwl codi pais wedyn!

**Huw Price Hughes**



# Tlws Yr Eco 2013





Cynhaliwyd dwy gystadleuaeth eleni, dan 9 a dan 11. Diolch i glybiau Llanberis a Llewod Llanrug am eu croeso arferol a darpariaeth drylwyr. Diolch hefyd i'r llu o rieni/ffrindiau a ddaeth i gefnogi. Yn sicr, roedd safon y bêl-droed yn cyfateb i'r tywydd braf ar y ddwy noson.

Mentrodd pum tîm i'r gystadleuaeth dan 9, tri o Lewod Llanrug, un o Waunfawr ac un o Fethel. Dim Llanberis na Deiniolen am y tro cyntaf. Gobeithio y gallant ddychwelyd yn fuan iawn. Eto eleni roedd arwyddion o hyfforddi pwrpasol, ac ambell gôl-geidwad dawnus. Fel yn y blynyddoedd diweddar prinhau mae'r goliau. Ydy maint y goliau yn un ffactor o gofio datblygiad corfforol yr oedran yma erbyn hyn?

Roedd pob tîm yn chwarae ei gilydd. Ar ddiwedd yr adran yma dau dîm o Lanrug – yr A a'r C – ddaeth i'r brig a hawlio eu lle yn y rownd derfynol. Yr A fu'r tîm cryfaf drwy'r nos a hwy gipiodd y tlws gan ennill o 3-0, diolch i goliau Deion Llyfni Williams(2) ac Elis Griffiths.

Denwyd 7 tîm draw i Gae'r Ddôl, Llanberis, ar gyfer y tlws dan 11. Daeth 4 tîm o Lanrug, ac un o Fethel, Waunfawr a thîm cymysg Deiniolen/Llanberis. Braf oedd croesawu tîm merched o Lanrug. Y tro cyntaf i ni gael tîm merched yn hanes y tlws a diolch i Dylan Elis am ei waith caled. Mae hyn yn adlewyrchu y twf rhyfeddol ym mhêl-droed i ferched dros y tymhorau diweddar. Roedd dwy gêm gyfartal y genethod – a cholli dwy gêm o un gôl yn unig -yn yr adran gynghreiriol yn dangos eu bod yn llwyr haeddu eu lle yn y gystadleuaeth.

Yma eto, prin iawn oedd y goliau gyda sawl gêm yn diweddu 1-0. Cystadleuaeth agos felly, a rownd derfynol rhwng Bethel a Llanrug B. O gofio record anhygoel tîm dan 11 Bethel yn y twrnameintiau eleni a bod tîm Llanrug flwyddyn yn ifancach, roedd hi'n ymddangos yn hawdd proffwydo. Ond nid felly y bu. Brwydrodd Llanrug yn galed a chafwyd perfformiad i'w gofio gan Iolo Jones yn y gôl i Lanrug. Wedi dwy hanner o 8 munud, di-sgôr oedd hi. Ymlaen felly at gyfnod y Gôl-aur – y cyntaf i sgorio. Daeth y gôl bwysig o droed Huw Gwyn wedi 2 funud ac aeth y tlws i Fethel. Clo ar dymor llwyddiannus iddynt, a'r garfan yma wedi codi tlws yr Eco dan 7, 9 ac 11. Llongyfarchiadau.

Pob lwc i'r clybiau i gyd yn ystod y tymor, ac fe ddown at ein gilydd mis Gorffennaf nesaf i ymgiprys am y 'Tlws Mawr' unwaith eto!

# BETH YW'R ARGOELION?

Mae teulu pêl-droed y Fro un yn llai eleni gydag ymadawiad disymwth Bethel o Gynghrair Gwynedd. Mae'n siŵr fod sawl rheswm paham, ond dyma glwb gyda record glodwiw ers ei ail ffurfio. Mae cyfleusterau da ar faes Coed Bolyn. O'r hyn a ddeallaf mae bwriad ail sefydlu y tymor nesaf. Mae'n debyg mai yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch y bydd hynny. Yn ôl i'r gwreiddiau felly, a dyma gyfle i feithrin y doniau lleol a chreu carfan i aros gyda'i gilydd.

Wedi'r ymddangosiad ar y gyfres deledu bydd cryn sylw i Lanberis. Carfan ifanc wnaeth yn rhyfeddol y tymor diwethaf. Cafwyd dechrau da i'r tymor, yn enwedig o rwydo 7 gôl yn erbyn ceiliogod Môn o Lantraeth. Yn barod mae prif sgoriwr y gynghrair y tymor diwethaf, Dafydd 'Didi' Jones, ymysg y goliau. Gwelais Lanber ar faes Nantporth. Tipyn o gweir o ran goliau ond roedd fflachiadau o basio slic i'w canmol a dwy gôl i Gareth Jones. Rwy'n siŵr fod y chwaraewyr yn meddwl beth petasai nhw'n cael chwarae ar faes cyffelyb bob wythnos. Braf gweld criw da o Lanberis hefyd yn y brif eisteddle. Ffwtbol yn y Gymraeg oedd Nantporth yn sicr y pnawn hwnnw!

Wedi tair gêm, ennill un a dwy gyfartal yw record Llanrug. Yma eto mae carfan solet gydag un neu ddau newydd wedi eu denu i Eithin Duon. Yma eto mae'r argoelion yn dda, gan obeithio gwella ar berfformiadau oddi cartref eleni. Y gorau yw'r ymwelwyr, y gorau mae Llanrug yn chwarae. Pwy tybed fydd yn ennill y bencampwriaeth answyddogol am Bencampwyr y Dyffryn?

Ar ran dilynwyr y bêl-droed yn y dyffryn, dymunwn wellhad buan i Dafydd Arfon, Dafydd (Mona) Owen a Howyn Jones.

Mae'r Waunfawr wedi camu ymlaen i Gynghrair Gwynedd. Bydd hon yn gynghrair agored iawn eleni, a bydd y Beganifs yn fodlon ar sefydlu eu hunain yn eu tymor cyntaf. Y mae digon o ysbryd yn y clwb i wireddu'r nod.

Bydd ail dimau Llanrug a Llanberis yn ein cynrychioli yng Nghynghrair Arfon. Da gweld Llanberis yn ôl yn eu cartref ysbrydol. Dyma'n amlwg fydd y feithrinfa i'r hogiau lleol. Amser a ddengys a oes digon o chwaraewyr yn y fro i gynnal cyn gymaint o dimau. Cawn weld rŵan beth fu canlyniad yr holl dimau ieuenctid a fu yn y dyffryn dros y blynyddoedd diwethaf. Ydy'n nhw yn bwydo i'r strwythr leol?

Dymuniadau gorau i'r clybiau i gyd.



**Dafydd Jones** (Didi) prif sgoriwr y gynghrair hefo'i dlws.

# MAE RHYWUN YN DARLLEN

Ar faes yr Eisteddfod un o uchel swyddogion Cynghrair Bêl-Droed Corbett Cymru yn fy ngalw fi draw.(Oes, mae un neu ddau yn fy adnabod).

'Diolch yn fawr i ti. Rydw i'n darllen mwy am y gynghrair yn Eco'r Wyddfa nag ydw i yn y Western Mail!' Tybed os caf docyn y Wasg ar gyfer rhai o'r gemau eleni.?

# YR APÊL FLYNYDDOL

Rwy'n siŵr y gallwn ymfalchio fel papur bro ein bod yn rhoi sylw i ystod rhyfeddol o gampau yn ein colofnau. Fy mwriad yw adlewyrchu yr ystod eang o gampau sy'n britho'r ardal, ac hefyd weithiau brocio drwy fynegi barn i geisio denu ymateb. Pwrpas bob Papur Bro yw cofnodi gweithgaredd ardal. Ein papur 'ni' ydy o. Apeliaf felly i bob clwb neu gymdeithas i ddanfon unrhyw newyddion ataf. 01248 670115 neu richard.llwyd@yahoo.co.uk.




# Chwaraeon





*CPD Llanrug yn eu cit newydd yn barod am y tymor newydd*

## Ras Elidir

Yn ystod Awst hefyd cynhaliwyd Ras Elidir o Nant Peris. Rhyw hanner cant o redwyr a fentrodd ar y ddringfa galed eleni, ac er fod bygwth glaw a gwyntoedd cryf, cadwodd yn glir a thrymaidd, gyda'r rhedwyr i gyd yn falch o gael oeri wrth groesi afon Gafr ar ddiwedd y ras!

Ganol fis Medi cynhelir Ras Pedol Peris, sydd eleni yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain a gynhelir dan reolau'r FRA. Disgwylir nifer dda o redwyr gorau Prydain i Lanberis i herio'r Elidir fach, Elidir fawr, y Garn, Glyder fawr, Lliwedd, yr Wyddfa a Moel Cynghorion cyn diweddu'n ol yn Llanberis. Tipyn o daith a mwy fyth o ddringo!



*mwynhau croesi'r afon yn ystod ras Elidir.*

Ac y mae'r tymor rhedeg traws-gwlad ar y gorwel yn barod….

## Pencampwr Prydain




Rob Samuel o Lanrug a Chlwb Rhedwyr Eryri yw pencampwr rhedeg mynydd Prydain eleni. Yn ystod mis Awst bu'n rhedeg ras yng Nghoedwig Winlatter yn Cumbria a oedd hefyd yn cael ei chyfrif fel ras ddewisol ar gyfer tim Prydain i gystadlu ym mhencampwriaeth y byd yng ngwlad Pwyl ddechrau mis Medi. Ar gwrs o 15k a thirwedd garw, daeth Rob Samuel yn gyntaf mewn amser o 59 munud ac 11 eiliad. Bydd rwan yn cynrychioli Prydain yng ngwlad Pwyl ar yr 8fed o Fedi.

Yn ail yn yr un ras (a hefyd wedi ei ddewis i gynrychioli Prydain) roedd Andi Jones, wyneb cyfarwydd iawn ym mro'r "Eco", a rhedwr a enillodd Ras yr Wyddfa eleni am y chweched tro. Roedd y tymheredd ar y mynydd ar gyfer rhedeg Ras yr Wyddfa am y 38ain tro yn nesau at 30 gradd celsius, ac ymdopi efo'r gwres oedd problem fwyaf y rhedwyr. Roedd amser yr enillydd (awr ac wyth munud) yn arafach o gryn dipyn oherwydd y gwres, ond rhaid llongyfarch Alun Vaughan, yr hogyn lleol, ar redeg ras eithriadol o dda a dewr, gan orffen yn bedwerydd, dri munud yn unig tu ol i'r enillydd. Roedd Mathew Roberts o Lanberis hefyd yn cynrychioli tim Cymru, ac ef ddilynodd Alun yn ail redwr gorau y tim ar y diwrnod.

A ble roedd Rob Samuel ar ddiwrnod y ras? Wel, o leiaf roedd wedi cyrraedd y copa cyn hanner dydd, gan iddo orffen yn bumed yn y ras newydd o Lanberis i'r copa'n unig. Mae gobaith y gwelir mwy yn cystadlu yn y ras hon am Gwpan yr Wyddfa y flwyddyn nesaf.